

Ffermydd Arddangos

Adroddiad 2014



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Cyswllt Ffermio

- Lleihau costau cynhyrchu
- Cynyddu maint elw
- Gwella cynaliadwyedd

Darganfyddwch beth weithiodd
i'n ffermydd arddangos...

Darganfyddwch beth all weithio i chi...



Rhagair

Prif nod Cyswllt Ffermio yw cefnogi teuluoedd amaethyddol i ddatblygu a gwella effeithlonrwydd eu busnesau fferm. Mae newid a gwella effeithlonrwydd yn angenrheidiol os ydym am ddiogelu dyfodol ein ffermydd ar gyfer cenhedlaethau'r dyfodol.

Mae Cyswllt Ffermio yn helpu i gyflawni hyn trwy rwydwaith o 28 o Ffermydd Arddangos yr ydym wedi eu tynnu o bob sector – biff, defaid, llaeth, tir â, garddwriaeth ac organig.

Rydym wedi creu'r llyfryn hwn i dynnu sylw at y prosiectau allweddol y mae Cyswllt Ffermio yn eu cynnal ar y ffermydd hyn, rhai ohonynt ddim ond newydd ymuno â'r rhaglen.

Mae llawer o'r prosiectau yma yn deillio o'r cryfderau a gwendidau a danlinellwyd yn yr adolygiadau busnes a gynhyrchwyd ar gyfer pob Fferm Arddangos.

Nid yn unig mae'r ffermydd yma yn cael budd uniongyrchol o'r mewnbwn hwn ond felly hefyd bob ffermwr ar draws Cymru oherwydd bod y prosiectau yma yn gweithredu fel llwyfan i dreialu technegau a thechnoleg rheoli newydd a blaengar.

Mae rhai o'r ffermydd yn treialu bolysau rwmen ac EID i systemau defaid a biff ac eraill yn treialu pori cylchdro a chynhyrchu cynydu porthiant gwahanol i besgi gwartheg. Nod yr holl weithgareddau hyn yw gwella cynaliadwyedd ar y fferm a lleihau costau cynhyrchu, sy'n hanfodol i fusnesau fferm i gynyddu eu helw.

Mae iechyd a lles anifeiliaid hefyd yn nodwedd gref. Mae ein Ffermydd Arddangos llaeth yn sgrinio am BVD a chlefyd Johnne ac yn asesu pa mor gyfforddus yw'r gwartheg tra mae llawer o'r ffermydd biff a defaid yn ymdrin â chloffni neu'n gwerthuso statws elfennau hybrin eu buches neu ddiadell i osgoi anhwylderau.

Mae rheoli amgylcheddol yn fater cynyddol bwysig i ffermydd ac felly cynhaliwyd Cynlluniau Rheoli Maetholion ac Archwiliadau Amgylcheddol ar bob Fferm Arddangos. Defnyddir y rhain i werthuso ffyrdd o leihau effaith amgylcheddol a rheoli dŵr glân a budr i leihau'r swmp o slyri ar y ffermydd hyn.

Fel sail ar gyfer cynhyrchiant, mae gwella rheolaeth ar laswelltir yn hanfodol bwysig ac felly mae llawer o'n gweithgareddau allweddol ar Ffermydd Arddangos yn canolbwyntio ar gael y pethau sylfaenol yn iawn, boed hynny trwy wella ansawdd y pridd a'i strwythur neu ail hadu a defnyddio systemau pori i reoli glaswellt a chnydau porthiant eraill. Mae'r prosiectau hyn yn ganolog i gael y defnydd mwyaf o gnydau porthiant ar y fferm a gwella cynhyrchiant.

Bydd canlyniadau'r holl brosiectau hyn yn parhau i gael eu rhannu ymhlith y diwydiant amaethyddol mewn diwrnodau agored dros y misoedd nesaf. Ewch i'n gwefan i gael gwybodaeth am yr holl Ffermydd Arddangos a'r digwyddiadau fydd yn cael eu cynnal yn eich ardal.

Yr Athro Wynne Jones OBE FRAGS
Cadeirydd Pwyllgor Strategol
Ymgynghorol Cyswllt Ffermio


Ffermydd Arddangos Mynegai i'r Tudalennau



Bodrida
Brynsiencyn | Tudalen: 4




Hendre Nantcyll
Pantglas | Tudalen: 8



Trygarn
Sarn | Tudalen: 12



Gwythrian
Aberdaron | Tudalen: 16



Henblas
Llwyngwril | Tudalen: 20




Cerrigaranau
Talybont | Tudalen: 24




Ochor
Tregaron | Tudalen: 28




Pentrefelin
Talsarn | Tudalen: 32



Blaencwmpridd
Synod Inn | Tudalen: 36




Bronyglyn
Llanfynydd | Tudalen: 40



Stember
Poyston Cross | Tudalen: 44




Winterton
Dale | Tudalen: 48



Frowen
Login | Tudalen: 52



Plas
Bancyfelin | Tudalen: 56




Gop
Tudalen: 60 | Trelawnyd



Carreg-y-Llech
Tudalen: 64 | Treuddyn




Hafod y Maidd
Tudalen: 68 | Corwen



Abbey
Tudalen: 72 | Llangollen



Y Gyrrn
Tudalen: 76 | Llanuwchllyn




Trewylan Ganol
Tudalen: 80 | Llansantffraid



Dol Llys
Tudalen: 84 | Llanidloes




Cwmwhitton
Tudalen: 88 | Whitton



Blaenbwch
Tudalen: 92 | Maesymyrnys



Aberbran Fawr
Tudalen: 96 | Brecon



Guddr
Tudalen: 100 | Llanbedr



Gelli
Tudalen: 104 | Cymmer



Great House
Tudalen: 108 | Llansoy



Ifton Hill
Tudalen: 112 | Portskewett

Bodrida

Richard Rogers

Brynsiencyn, Ynys Môn, LL61 6NZ.

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos o fewn y rhaglen yma ers mis Medi 2011
- 750 erw
- Amrywio o 30 i 100 troedfedd

MANYLION Y GWARTHEG

- 40 o wartheg magu, croes Limousin
- 150 o wartheg pesgi cyfandirol – Limousin yn bennaf
- 200 o fustych Friesian >12 mis
- 250 o fustych Friesian <12 mis
- 80 o loeau benyw Friesian croes Angus a Henffordd <12 mis

MANYLION Y DEFAID

- 1,500 o ddefaid, gan gynnwys croesiadau Suffolk, Texel ac Aberdale

MANYLION ERAILL

- 70 erw o gnydau grawn

AMCANION ALLWEDDOL

1. Gwella'r defnydd o laswelltir
2. Lleihau'r defnydd o ddwysfwyd wedi ei brynu i mewn
3. Cymharu pob menter ar y fferm yn ôl elw i bob hectar i weld i ba gyfeiriad y dylai'r busnes fynd

Prosiectau allweddol

1. SYSTEM PORI CYLCHDRO

Datblygwyd system pori cylchdro yn Bodrida lle rhannwyd 40 ha o dir yn badogau un hectar. Cedwir bustych Friesian Seland Newydd yn ôl pum bustach i'r hectar ac fe'u rheolir fel dau grŵp o 100 sy'n cael eu symud bob 24 awr. Y nod yw cynhyrchu 1,875kg/ha o bwysau byw dros y cyfnod hwn ar laswellt yn unig (gellir gweld y canlyniadau yn Ffigwr 1).



2. SYSTEMAU PESGI WŶYN

Barn Richard oedd bod llawer o ddwysfwyd yn cael ei wastraffu wrth besgi wŷn ar ddiwedd y tymor, gyda'r wŷn yn bwyta mwy nag sydd arnynt ei angen ar system 'ad lib'. Nodwyd yr wŷn oedd yn pwysu 34-36kg o bwysau byw ar ddechrau'r cynllun treialu, ac yna fe'u rhannwyd ar hap yn ddau grŵp o 40 o wŷn. Rhoddwyd y ddau grŵp mewn caeau gyda gorchudd cyson o laswellt a chyfradd stocio gyson am 28 diwrnod.

Roedd un grŵp yn bwyta 'ad lib' mewn porthwr confensiynol ac roedd y grŵp arall yn cael eu porthi unwaith y dydd mewn cafnau. Cadwyd cofnod o faint o ddwysfwyd oedd yn cael ei roi iddyn nhw.

Ar ôl cyfnod o 28 diwrnod, pwyswyd yr wŷn oedd wedi eu nodi eto, ac er bod yr wŷn oedd wedi cael eu porthi unwaith y dydd wedi bwyta 6.4kg yn llai y pen ar gyfartaledd, roedd eu pwysau yn gyson â'r rhai ar y system 'ad lib' (gwelir y canlyniadau llawn yn Ffigwr 2).

Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

1. Pesgi bustych Friesian ar system bori cylchdro

Ffigwr 1. Perfformiad gwartheg


| | Cynnydd Mewn Pwysau Byw Dyddiol | Pwysau byw yn ystod y tymor |
|-----------------------|---------------------------------|-----------------------------|
| Ar ôl 150 diwrnod | 1.4kg y diwrnod | 1,750kg/ha |
| Targed (~250 diwrnod) | 1.5kg y diwrnod | 1,875kg/ha |

2. Asesu effeithlonrwydd 'dogni' dwysfwyd wrth besgi ŵyn ar ddiwedd y tymor ar laswellt


Ffigwr 2. Perfformiad yr ŵyn

| Dull porthi | Pwysau byw ar y dechrau | Pwysau byw ar ôl 28 diwrnod | Dwysfwyd y pen ar gyfartaledd (kg) |
|-----------------------|-------------------------|-----------------------------|------------------------------------|
| Ad lib | 34 – 36kg | 41.9kg | 12.7kg |
| Porthi unwaith y dydd | 34 – 36kg | 42.1kg | 6.3kg |

Ad lib (Y Pen)



Wedi eu porthi unwaith y dydd (y pen)



Cyfanswm yr arbediad ar 500 o ŵyn = £735

Holi ac ateb gyda Richard

Beth yw'r brif fantais o fod yn Fferm Arddangos Cyswllt Ffermio?

"Cael cyngor a chyfarwyddyd wrth ddechrau system bori cylchdro i gael y defnydd mwyaf o laswellt."

O'r holl gyngor, beth sydd wedi bod fwyaf manteisiol a/neu sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar eich busnes?

"Rhannu 40ha o dir yn 40 cae 1ha o faint i ddechrau system pori cylchdro ac ymgyswllt â'r dull rheoli hwn."

Pa newidiadau ydych chi wedi eu gweithredu fydd yn parhau i fod yn rhan o'ch system ffermio yn y dyfodol?

"Bydd rhagor o dir yn cael ei roi i'r system pori cylchdro yn y dyfodol."

Safbwyntiau Richard

1 Byddwch yn agored eich meddwl a hyblyg. Yn aml mae ffyrdd gwell o weithio fel y dysgais i drwy bori cylchdro a'r prosiect pesgi ŵyn.



2 Rhoi blaenoriaeth i reoli gwndwn gan mai porfa yw un o'ch adnoddau mwyaf gwerthfawr.



3 Mae mesur a gwerthuso pob maes o'r busnes yn talu ac yn tynnu sylw at gryfderau a gwendidau.

4 Gofynnwch gwestiynau am bob cost sy'n gysylltiedig â phob menter benodol ar y fferm.

Hendre Nantcyll

Arwyn a Gwen Williams

Garndolbenmaen, Gwynedd, LL51 9DJ

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos ers Ionawr 2013
- 170 erw yn berchen iddo
- 200 erw ar rent
- Yn amrywio o 490 - 750 troedfedd

MANYLION Y GWARTHEG

- 27 o wartheg magu Limousin

MANYLION Y DEFAID

- 445 o famogiaid Cymreig wedi eu gwella a rhai croes Texel
- 120 o ŵyn benyw

MANYLION ERAILL

- Glastir Sylfaenol ac Uwch

AMCANION ALLWEDDOL

1. Cynyddu'r ganran o ŵyn sy'n cael eu magu gan y ddiadell
2. Lleihau'r costau, trwy geisio gwneud y mwyaf o adnoddau'r fferm (gan gynnwys tail)
3. Tynhau'r cyfnod lloea a chynyddu'r ganran o loeau sy'n cael eu magu

Prosiectau allweddol

1. CYNYDDU'R GANRAN WRTH SGANIO

Un o brif amcanion Arwyn oedd cynyddu'r ganran o ŵyn sy'n cael eu magu gan y ddiadell. Fel rhan o hyn mae wedi dechrau defnyddio hyrddod Aberdale i gynhyrchu ŵyn benyw mwy cynhyrchiol, gyda'r nod o gyrraedd cyfradd sganio o 150% ar gyfer y

ddiadell gyfan. Cafodd presenoldeb afiechyd tocsoplasmosis effaith ddirifol ar ganlyniadau'r llynedd. Bydd Arwyn yn brechu'r ddiadell rhag Tocsoplasma eleni er mwyn anelu i wella'r canran sganio ar gyfer 2015 (gweler Ffigwr 1).



2. ELFENNAU HYBRIN

Ar ôl asesu lefelau elfennau hybrin yng ngwaed y defaid a'r gwartheg, daeth yn amlwg bod diffyg yn lefelau iodid y gwartheg. Yn ôl cyngor y milfeddyg, rhoddwyd bolysau i'r gwartheg ddau fis cyn

lloea yn 2013. Yn dilyn y driniaeth roedd gwelliant sylweddol ym mywiogrwydd y lloea ar eu geni. Hefyd, roedd y tymor lloea yn dynnach yn ystod 2014 (gweler Ffigwr 2).



Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

Ffigwr 1. Perfformiad y Ddiadell

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---------------------------------------|------------|-------------|------------|
| Y nifer o ddefaid aeth at yr hwrdd | 412 | 438 | 449 |
| Y nifer o ŵyn a ragwelwyd wrth sganio | 556 (135%) | 593 (135%)* | 568 (129%) |
| Nifer o ŵyn byw wrth eu geni | 520 (126%) | ** | 540 (120%) |

* Problem gydag un o'r hyrddod, felly 143% yw'r ganran heb gynnwys y grŵp hwnnw.

** Dim ffigwr oherwydd y tywydd gwael iawn.

Ffigwr 2. Cyfnod Lloea

| Blwyddyn | Nifer o fuchod at y tarw | Y nifer wnaeth loea yn llwyddiannus | Y nifer wnaeth loea yn y chwe wythnos cyntaf |
|----------|--------------------------|-------------------------------------|--|
| 2012 | 24 | 22 | 18 |
| 2013 | 23 | 23 | 18 |
| 2014 | 27 | 26 | 26 |

Ffigwr 3. Tynhau'r cyfnod lloea

2012 - 75% wedi lloea yn y 6 wythnos cyntaf



2014 - 96% wedi lloea yn y 6 wythnos cyntaf



Holi ac ateb gydag Arwyn

O'r holl gyngor, beth sydd wedi bod fwyaf manteisiol a/neu sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar eich busnes?

"Rhoi bolysau iodid i'r gwartheg yn bendant. Mae hyn wedi tynhau'r patrwm lloea, ac wedi gwneud y cyfnod lloea yn haws ei reoli."

Beth yw eich cynlluniau at y dyfodol?

"Er mwyn tynhau'r cyfnod ŵyna, byddwn ond yn cadw'r ŵyn benyw sydd yn cael eu geni yn ystod y mis cyntaf o ŵyna (gylchred cyntaf), ac felly ond yn dewis ŵyn o famogiaid mwyaf ffrwythlon."

Safbwyntiau Arwyn

1

Dylai ffermwyr geisio dysgu un neges o bob digwyddiad/grŵp trafod a'i weithredu gartref.



2

Cadw'r system yn syml a lleihau costau cynhyrchu pan fydd hynny'n bosibl.

3

Darganfod beth yw gwir achos unrhyw broblem, yn hytrach na derbyn mai dyma'r gorau y gellir ei wneud.



4

Bu asesu elfennau hybrin yn y gwaed yn fuddsoddiad gwerthfawr yma yn Hendre Nantcyll.

Trygarn

Rhys a Kelly Williams

Sarn Mellteyrn, Pwllheli, LL53 8EA

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos ers Ionawr 2014
- 174 erw yn berchen iddynt
- 85 erw ar rent
- Yn amrywio o 50 i 200 troedfedd

MANYLION Y GWARTHEG

- 300 o fuchod llaeth Friesian Seland Newydd ar system Seland Newydd
- Canran uchel o'r stoc ifanc yn cael eu magu ar gontract ar ffermydd eraill

AMCANION ALLWEDDOL

1. Creu strategaethau effeithiol i reoli llyngyr yr iau yn y fuches, gwella iechyd a lles a chynhyrchedd y fuches
2. Creu menter fwy cynaliadwy trwy ddefnyddio slyri yn y ffordd fwyaf effeithiol a gofalu am bob agwedd o'r pridd - ffisegol, cemegol a biolegol
3. Symud ymlaen gyda'n rhaglen rheoli BVD o dagio a phrofi'r holl stoc ifanc i gael ein hachredu

Prosiectau allweddol

1. RHEOLI LLYNGYR YR IAU

Gall llyngyr yr iau gael effaith niweidiol iawn ar y fuches yn ystod blwyddyn wael. Yn ychwanegol at y colledion uniongyrchol o ran anifeiliaid, gall gael effaith sylweddol ar gynhyrchiad y fuches. Amcangyfrifir bod gwartheg wedi eu heintio ar gyfartaledd yn cynhyrchu 0.7kg yn llai o laeth y dydd dros y flwyddyn, gyda'r bwlch rhwng lloeau tua 5 diwrnod yn hwy. Mae Rhys yn gweithio gyda'i filfeddyg i weithredu strategaeth reoli llyngyr yr iau gadarn.

Oherwydd bod y fuches yn lloea mewn bloc yn y gwanwyn, mae un o'r ddau gynnyrch Triclabendazole a awdurdodwyd yn ddewis ymarferol ar gyfer y math hwn o system. I gael y canlyniadau gorau dylid defnyddio hwn ar ôl i'r gwartheg fod oddi ar y borfa am bythefnos a'u sychu ym mis Tachwedd/Rhagfyr.

Mewn tymhorau pan fydd y risg yn uchel iawn, yr unig driniaeth ddichonol i llyngyr yn ystod y cylch llaetha yw cynnyrch yn seiliedig ar Albendazole neu Zanil, sydd â chyfnod pan na ddylid godro o 60 awr a 72 awr yn eu tro.

Ffigur 1. Oedran llyngyr (wythnosau) sy'n agored i driniaeth

| Triniaeth Llyngyr | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | Cyfnod pan na cheir godro |
|-------------------|---|---|---|---|---|---|---|---|---|----|----|----|----|----|--|
| Triclabendazole | | | | | | | | | | | | | | | 45-48 wythnos gan ddiwynnu ar y cynnyrch |
| Albendazole | | | | | | | | | | | | | | | 60 awr |
| Zanil | | | | | | | | | | | | | | | 72 awr |

Dewisiadau rheoli i leihau'r baich o llyngyr:

- Dynodi'r caeau sychaf i'w pori yn yr hydref
- Ffensio allan ardaloedd corsiog/gwlyb
- Dim ond caniatáu i'r stoc gael dŵr prif gyflenwad
- Gwella ardaloedd sy'n dueddol o ddiodef potsio o gwmpas cafnau dŵr a giatiau.

2. CYLLIDEB MAETHOLION

Gan fod gan Trygarn lefelau stocio trwm, mae llawer iawn o faetholion yn cael eu cludo i mewn i'r uned ar ffurf porthiant - yn ddwysfwyd a silwair. Mae hyn yn golygu bod


cyfleoedd i Rhys fodloni anghenion P + K y pridd yn gyfan gwbl bron trwy ddefnyddio slyri'r fferm yn effeithiol a gwneud arbediadau ariannol sylweddol.

Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

1. Mae'r crynhoad o galsiwm yn y rhan fwyaf o badogau ar hyn o bryd ym mhell dan y 2,000 ppm dymunol. Y nod yw gwella'r sefyllfa hon trwy ddefnyddio Nitrad Amonia Calsiwm.

Mae'n gamsyniad cyffredin, os bydd y pH yn uchel bod digon o galsiwm yn bresennol - nid yw hyn yn wir bob amser.


Ffigwr 2. Lefelau crynhoad calsiwm yn y pridd



2. Cynnal cynnyrch o 5,600 litr i bob buwch gan barhau i wella iechyd a ffrwythlondeb y buchod.
3. Cadw'r dwysedd stocio uchel presennol o ~1.74 o fuchod yr erw gan wella a chynnal iechyd y pridd.

Ffigwr 3. Dadansoddiad slyri Trygam

| Analyte | Cyfanswm mewn unedau/1,000 galwyn |
|---|-----------------------------------|
| Amoniwm -N | 6.96 |
| Ffosfforws (fel P ₂ O ₅) | 4.35 |
| Potasiwm (fel K ₂ O) | 23.24 |



Mae'r gwerth ariannol wedi ei seilio ar:

Amoniwm Nitrad (AN)
@ £270/t (78 p/kg),
Triple Super Phosphate (TsP)
@ £260/t (56 p/kg),
Murate of Potash (MoP)
@ £260/t (43p/kg)

Holi ac ateb gyda Rhys

Beth yw'r brif fantais o fod yn Fferm Arddangos Cyswllt Ffermio?

"Hyd yn hyn, mae wedi gadael i mi greu cysylltiadau newydd gydag ymgynghorwyr blaenllaw a ffermwyr eraill, sydd â chyfoeth o wybodaeth a phrofiad."

O'r holl gyngor, beth sydd wedi bod fwyaf manteisiol a/neu sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar eich busnes?

"Nid oedd ein strategaeth o reoli llyngyr yr iau yn y gorffennol yn effeithiol, ac eleni fe fyddwn yn rhoi cynnig ar ddull gwahanol."

Beth yw eich cynlluniau at y dyfodol?

"Parhau i weld cynnydd yng ngeneteg y fuches a sicrhau bod ein system ffermio yn gynaliadwy yn y tymor hir o ran iechyd y pridd."

Beth ydych chi wedi rhoi cynnig arno na fydech chi fel arall?

"Fe wnaethom ni brofi'r slyri eleni am y tro cyntaf a fydd yn ddefnyddiol iawn i gynllunio'r gwrteithio yn y dyfodol."

Safbwyntiau Rhys

1. Bu profi am wrthedd i Triclabendazole yn ddefnyddiol iawn wrth lunio cynllun rheoli ar gyfer llyngyr yr iau



2. Dysgwch faint o faetholion yr ydych yn eu chwalu ar ffurf tail – gall gynnig arbedion sylweddol



3. Mae gweithlu da yn hanfodol ar gyfer llwyddiant unrhyw fusnes, ac mae treulio amser yn hyfforddi a dysgu gweithwyr yn fuddsoddiad rhagorol.





Gwythrian

Alan, Catrin, Dafydd, Wiliam ac Ieuan Williams

Aberdaron, Pwllheli, LL53 8BW

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos ers Ionawr 2014
- 650 erw
- Amrywio o 150 i 400 troedfedd

MANYLION Y GWARTHEG

- 70 o fuchod magu, cymysgedd o fridiau cyfandirol
- 250 o wartheg stôr yn cael eu prynu yn flynyddol

MANYLION Y DFEAID

- 1,250 o famogiaid – 250 o ddefaid Miwl a 1,000 o ddefaid Suffolk x Miwl

MANYLION ERAILL

- 80 erw o gnydau grawn
- 5 erw o swêj
- Glastir Sylfaenol

AMCANION ALLWEDDOL

1. Datblygu'r busnes a chynyddu elw blynyddol yn barod i'r genhedlaeth nesaf barhau i ffermio
2. Cymharu gwndwn (hen â newydd) am eu potensial o ran cyfradd stocio defaid ac ŵyn yn y gwanwyn i wella effeithlonrwydd y fenter ddefaid
3. Gwella effeithlonrwydd y gwartheg wrth drosi porthiant a gwella'r elw'r pen

Prosiectau allweddol

1. GWNEUD Y DEFNYDD GORAU O LASWELLT CYNNAR

Un o'r prosiectau ar Gwythrian yw cymharu dau wndwn, un yn naw oed a'r llall yn ddwy oed. O'r prosiect Cyswllt Ffermio "Pori am Elw" blaenorol (www.menterabusnes.co.uk/cyswlltffermio/pori-am-elw) daeth yn amlwg bod gwndwn newydd yn perfformio yn well yn y gwanwyn mewn cymhariaeth â gwndwn hŷn. Gan fod Gwythrian yn ŵyna yn gymharol gynnar, mae glaswellt ychwanegol ar yr amser yma o'r flwyddyn yn werthfawr iawn, ac felly mae'n cynnig y dewis o gynyddu lefelau stocio neu leihau'r defnydd o ddwysfwd.

Pan fesurwyd y glaswellt am y tro cyntaf ar ddiwedd Chwefror, daeth yn amlwg bod y gwndwn newydd yn tan berfformio. Yn ystod y cyfnod o ddechrau Ionawr hyd ddiwedd Chwefror, roedd yr hen wndwn

wedi tyfu 2kg DM/ha y dydd yn fwy na'r gwndwn newydd ar 8kg DM/ha y dydd a 6kg DM/ha y dydd yn eu tro. Gall ffactorau amrywiol fod yn gyfrifol am hyn, ond mae'n debygol iawn bod strwythur y pridd, yn ogystal â llwyddiant yr ail hadu yn bennaf gyfrifol am y canlyniadau siomedig yma.

Mae cynnal y treial hwn wedi dangos gwerth monitro tyfiant glaswellt yn glir gan fod y canlyniadau yn wahanol iawn i'r hyn a ddisgwylid.

Roedd y tyfiant ym mis Mawrth yn llawer mwy fel y disgwylid, ac ar yr adeg honno roedd y ddau wndwn wedi tyfu'r un faint ar 24 kg DM/ha y dydd, er bod peth amrywiaeth yn y lefelau cynnwys sych.

Ffigur 1. Tabl yn dangos ansawdd y borfa

| Cyfansoddyn | Ansawdd y borfa yn Ionawr | | Ansawdd y borfa ym Mawrth | |
|-------------------|---------------------------|--------|---------------------------|--------|
| | Hen | Newydd | Hen | Newydd |
| Protein Amrwd (%) | 28.1 | 29.4 | 26.7 | 27.5 |
| Gwerth D | 69 | 69 | 69 | 70 |
| Cynnwys Sych (%) | 20.7 | 19.3 | 14.9 | 13.2 |
| ME (MJ/kg DM) | 10.9 | 10.9 | 11 | 11.2 |

2. EFFEITHLONRWYDD TROSI PORTHANT Y GWARTHEG

Mae pwyso yn gyson a chymharu dognau gwahanol wedi gwella effeithlonrwydd o ran trosi porthiant. Roedd cnwd porthiant yn rhan o'r dogn ac felly ystyriwyd y dadansoddiad o'r silwair hefyd.

Mae'r prosiect yn dal yn ei gyfnod cynnar felly mae asesiadau a mesuriadau parhaus yn cael eu cymryd i bennu'r trosi bywd a'r enillion mewn pwysau byw.



Holi ac ateb gyda Dafydd a Wiliam

Beth yw'r brif fantais o fod yn fferm arddangos?

"Mae cael hwylusydd sy'n gwybod am ein system ffermio a phrofiad o weithio gyda nifer o arbenigwyr yn help mawr pan fyddwch yn chwilio am gyngor ar faterion penodol."

O'r holl gyngor, beth sydd wedi bod fwyaf manteisiol a/neu sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar eich busnes?

"Bydd y cyngor yr ydym wedi ei dderbyn ar strwythur y pridd gobeithio yn ein helpu i gywiro'r broblem o gywasgu yn ystod y gwanwyn nesaf. Oherwydd y pridd trwm sydd yma, roedd pethau yn ystod y gwanwyn gwlyb a gawsom yn waeth fyth oherwydd y problemau cywasgu oedd gennym ond nad oeddem yn gwybod amdanynt yn y gorffennol."

Beth yw eich cynlluniau at y dyfodol?

"Mae'n ymddangos nad yw gwerth cig coch yn mynd i gynyddu llawer yn y dyfodol agos, felly, fel ffermwyr, bydd raid i ni edrych ar leihau costau eto."


Beth ydych chi wedi rhoi cynnig arno na fydddech chi fel arall?

"Am y flwyddyn gyntaf fe wnaethom ni ddadansoddi'r slyri i benderfynu beth ydym ni yn ei chwalu a sut i'w ddefnyddio yn fwy effeithiol."


Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

1. Gwellu'r effeithlonrwydd wrth drosi bwyd o 9.4lkg o fwyd i 1kg o gynnydd mewn pwysau byw yn ddyddiol i 7kg o fwyd i 1kg o dwf.

Y gyfradd bwyd i dyfiant bresennol




Y targed o ran cyfradd bwyd i dyfiant



2. Eleni gwerthwyd 1,450 o ŵyn allan o 1,970 (73%) erbyn y drydedd wythnos ym Mehefin. Y nod yw cynyddu hyn i 80%, gan fanteisio ar y prisiau uwch am ŵyn yn gynnar yn y tymor. Er mwyn cyflawni hyn bydd mwy o laswellt yn y gwanwyn a gwell defnydd ohono yn allweddol.

Safbwyntiau Dafydd a Wiliam

1. Dadansoddi'r holl silwair ar y fferm fel y gellir ei ddefnyddio mor effeithiol ag sy'n bosibl trwy ei dargedu ar y stoc mwyaf addas.



2

Mae llawer mwy i gael y mwyaf o werth caeau na chael y P a'r K yn iawn.



3

Mae maethegydd da yn gallu gwneud y gwahaniaeth rhwng colled ac elw.



4

Mae mesur glaswellt yn hanfodol i ganfod pa gaeau sy'n tanberfformio mewn system stocio benodol.

Henblas

Rob Pugh

Llwyngwriil, Tywyn, LL37 2QA

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos ers Tachwedd 2013
- 360 erw yn berchen iddynt
- Amrywio o 0 i 775 troedfedd

MANYLION Y DEFAID

- Diadell o 400 o famogiaid - 100 Miwl Cymreig
300 o Famogiaid Cymreig
- 60 o ŵyn benyw a fagwyd yn cael eu cadw yn flynyddol

MANYLION ERAILL

- Glastir Sylfaenol

AMCANION ALLWEDDOL

1. Gwella'r defnydd o laswellt a gynhyrchir ar y fferm
2. Gwella'r rheolaeth ar wndwn yr ucheldir i gael y cynhyrchiant mwyaf
3. Monitro statws y pridd i sicrhau ei fod ar ei orau i gynhyrchu da byw
4. Sicrhau bod busnes y fferm yn cael ei gadw yn hyfyw a chynaliadwy er gwaethaf y newidiadau a ddisgwyllir yn y diwydiant ac i daliadau uniongyrchol

Prosiectau allweddol


I. DEFNYDDIO GLASWELLT YR UCHELDIR

Roedd y gwndwn dwys ar Henblas o ansawdd da ac er eu bod wedi eu hau nifer o flynyddoedd yn ôl, roedden nhw'n dal i gynhyrchu rhywogaethau glaswellt o ansawdd a dewis amrywiol i gynhyrchu da byw. Sefydlwyd y prosiect y gwanwyn hwn i edrych ar yr elw ar fuddsoddiad o ddefnyddio mwy o nitrogen yn gynnar yn y tymor. Roedd y tir i gyd wedi cael 40kg o N/ha yng nghanol Mawrth - yna ychwanegwyd 50 kg N/ha ychwanegol i hanner y cae yng nghanol Ebrill.

Mesurwyd y glaswellt lle'r oedd cewyll amdiffyn rhag bori yn bresennol 42 diwrnod ar ôl chwala'r gwrtaith. Costiodd y gwrtaith ychwanegol £43 yr hectar, a chostau chwala o £12 yr hectar, gan roi cyfanswm o £55/ha.

Yn y manau lle chwalwyd nitrogen ychwanegol, tyfodd 2t DM/ha dros y 42 diwrnod hynny – ar gyfradd gyfartalog o 48kg DM/ha y dydd. Tyfodd y manau oedd wedi cael llai o N 0.6tDM/ha ar gyfradd o 16kg DM/ha y dydd.

Ffigur 1. Tyfiant glaswellt (kg DM /ha)



Roedd hyn yn golygu bod y glaswellt ychwanegol wedi costio llai na **4c/kgDM** i'w gynhyrchu.

Gyda chyfradd ddefnyddio glaswellt o ddim ond 70%, mae'n dal i gyfateb i 1tDM/ha yn ychwanegol o laswellt wedi ei fwyta dros 42 diwrnod - digon i gynnal 10 mamog ychwanegol gyda gefeilliaid ar bob hectar. Roedd y cae a ddewiswyd ar gyfer y treial yn cynnwys llawer o rygwellt (50%+) ac roedd

yn draenio yn dda heb unrhyw broblemau cywasgu, a gyda pH a P a K ar y lefelau targed. Bydd caeau fel hyn yn dangos y cyfraddau ymateb gorau ac yn cynnig yr elw mwyaf ar y buddsoddiad – cyn belled bod y glaswellt ychwanegol a dyfir yn cael ei bori yn effeithiol ac nad yw'n cael ei wastraffu.

Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

1. Oherwydd y gwrtaith ychwanegol a chwalwyd ar 50kg yr hectar ym mis Ebrill, tyfodd 48kg o gynnwys sych yr hectar mewn 42 diwrnod. Mae hyn yn cyfateb i ddigon o laswellt i gadw 10 mamog ychwanegol gyda gefeiliaid i bob hectar.
2. Dim ond 4 ceiniog y kg gostiodd y glaswellt i'w gynhyrchu.

Holi ac ateb gyda Rob

Beth yw'r brif fantais o fod yn fferm arddangos?

“Cael budd o gyngor arbenigol – yn amrywio o weithredu cyngor sydd yn ein cynllun busnes i wella rheolaeth ar laswelltir.”

Beth yw eich cynlluniau at y dyfodol?

“Mae'r cynlluniau at y dyfodol yn cynnwys ffermio ar y cyd gyda'm brawd a chynyddu'r elw o'r fferm.”

Beth ydych chi wedi rhoi cynnig arno na fyddech chi fel arall?

“Aseu tyfiant glaswellt gyda gwrtaith a hebdo i weld sut i ddefnyddio gwrtaith orau a phrofi ein pridd gan ein bod yn gwybod rwan pa gaeau sydd angen eu gwella ac ar ba lefel yr ydym o ran pH ac ati.”

Pa newidiadau ydych chi wedi eu gweithredu fydd yn parhau i fod yn rhan o'ch system ffermio yn y dyfodol?

“Ceisio defnyddio gwrtaith yn fwy effeithlon i gael mwy o dyfiant glaswellt i arbed arian ar ddwysfwyd i'r ŵyn, oherwydd rydym yn anelu at werthu'r ŵyn yn gynharach. Rydym yn anelu at wneud gwell defnydd o laswellt er mwyn arbed ar gostau'r ddiadell.”



Safbwyntiau Rob

1 Defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael, mae yno i'ch helpu i wella a thyfu eich busnes.



2 Heb brofi'r pridd neu fesur y glaswellt nid ydym yn gwybod pa mor dda y mae caeau penodol yn perfformio felly mae profi a mesur yn sail da i wybod lle'r ydych chi arni.



3 Mae cynllunio busnes wedi gweithio'n dda yn Henblas gan ei fod wedi rhoi darlun clir i ni o'r busnes a beth yw'r ffordd orau i yrru'r busnes yn ei flaen.



4 Trwy gadw llygad ofalus ar gostau'r mewnbwn rydym wedi gallu canolbwyntio ar rannau penodol o'r busnes. Rydym wedi gweithredu mewn meysydd nad oedd yn gweithio mor dda ag yr oeddem yn gobeithio oherwydd y costau mewnbwn uchel a'r newidiadau cyson yn y farchnad.



Cerrigcaranau

Dilwyn Jenkins a'i feibion Eifion a Geraint

Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5EJ

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos ers Ebrill 2012
- 460 erw yn berchen iddynt
- 70 erw ar rent
- Amrywio o 10 i 500 troedfedd

MANYLION Y GWARTHEG

- 125 o wartheg godro
- 30 o wartheg magu Duon Cymreig Pedigri

MANYLION Y DEFAID

- 300 Miwl Cymreig
- 150 o famogiaid mynydd Cymreig

MANYLION ERAILL

- 85 erw o farlys
- 5 erw o swêj
- 5 erw o rêp/cêl
- Organig
- Glastir Sylfaenol ac Uwch

AMCANION ALLWEDDOL

1. Rheoli a gwaredu afiechyd Johnne yn y fuches laeth i wella iechyd y fuches a'i phroffidioldeb
2. Gwaredu BVD yn y fuches laeth a biff i wella iechyd y fuches a'i phroffidioldeb
3. Gwella amgylchiadau'r fuchach ac effeithlonrwydd trwy wneud gwelliannau syml, cost effeithiol i gyfleusterau
4. Gwella ffrwythlondeb y fuches laeth ac ymchwilio i system canfod pa fuchod sydd yn gofyn tarw a'i gosod

Prosiectau allweddol

1. IECHYD Y FUCHES

Roedd y dulliau o fesur, monitro a rheoli afiechyd Johnne yn Cerrigcaranau yn cynnwys cymryd samplau llaeth gan y buchod i gyd a'u cyflwyno i'r labordy i'w profi. Cofnodwyd y canlyniadau a'r dadansoddiadau risg ar myhealthyherd.com i greu adroddiad am amlygrwydd yr afiechyd.

Crëwyd cynllun atal a rheoli cadarn ac ymarferol ar sail y risgiau a statws,

dyheadau ac adnoddau'r fferm.

Roedd hyn yn cynnwys lladd buchod wedi eu heintio; trefniadau lloea caeth fel bod yr holl gorrannau lloea yn cael eu glanhau ar ôl pob llo a phob buwch amheus yn cael ei chadw allan o'r corlannau. Hefyd dim ond llaeth gan fuchod heb eu heintio oedd yn cael ei ddefnyddio i'w roi i'r lloeau.

2. PA MOR GYFFORDDUS YW'R BUCHOD AC YMDDYGIAD GWARTHEG

Gall edrych ar fuchod roi 'arwyddion' i chi i'ch helpu i ddynodi pethau all fod yn gwneud y fuchach yn anghyfforddus, yn yr adeiladau, cyfleusterau a'r amgylchedd. Gall deall y meysydd yma ac ymdrin â nhw wella pa mor gyfforddus yw'r buchod, lefel y porthiant y maen nhw'n ei gymryd, lleihau cloffni ac arbed arian ar filiau milfeddygon. Egwyddorion arwyddion o ymddygiad y fuchach yw 'Edrych, meddwl a gweithredu!'

Yng Ngherrigcaranau, roedd nifer sylweddol o'r buchod yn cael eu hatal gan y wal wrth y rhesel borthi oedd yn cyfyngu gallu'r buchod i estyn y bwyd. Rhoddwyd cyngor y dylid gostwng uchder wal y rhesel fwyd i 50cm uwch y llawr i wneud y bwyd yn haws ei gyrraedd. Pan wnaed y gwaith hwn, gwelodd lefelau'r bwyd a gymerwyd dros nos.

3. TECHNOLEG CANFOD BUCHOD SY'N GOFYN TARW I DYNHAU'R MYNEGAI LLOEA

Dynodwyd mai ffrwythlondeb oedd y gost allweddol y gellid ei hadfer yn Cerrigcaranau. Gosodwyd y targed i roi tarw i fuchod yn gynharach er mwyn gwella'r gyfradd gyfloi. Yr argymhelliad yw 42 diwrnod ar ôl lloea. Y cyfartaledd yn Cerrigcaranau yn Hydref 2012 oedd 62 diwrnod. Gallai rhoi'r tarw i'r buchod yn gynt helpu i wella'r gyfradd gyfloi gan fod y dystiolaeth yn awgrymu bod y cyfnodau cynharaf o ofyn tarw yn fwy

ffrwythlon ac yn gryfach na'r rhai dilynol.


Gosodwyd technoleg canfod buchod sy'n gofyn tarw yn Cerrigcaranau i helpu i leihau'r mynegai lloea. Gwelwyd gostyngiadau yn y mynegai lloea yn barod o 431 diwrnod i 419 diwrnod. Gan gymryd bod arbediad o £5.60 am bob diwrnod y mae'r cyfnod yn byrhau mae hyn eisoes yn welliant o £67.20 i bob buwch neu £6,988 i'r fuches.

Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau


1. AFIECHYD JOHNE

Mae'r fuches wedi lleihau'r lefel risg o afiechyd i risg fechan iawn heb unrhyw fuchod wedi eu heintio yn y fuches. Mae'r graff isod yn dangos sut y mae'r ganran o fuchod wedi eu heintio (Coch) a buchod amheus (Melyn) wedi lleihau ers i'r camau rheoli Johnne gael eu gweithredu yn 2012.

Data Hanesyddol Johnne mewn Canran



Data Gwerthoedd Hanesyddol Johnne



2. MYNEGAI LLOEA

Angen ei ostwng ymhellach ond wedi llwyddo i ostwng o 431 yn Hydref 2012 i'r mynegai presennol o 419 yn 2014.

Holi ac ateb gyda Dilwyn

Beth yw'r brif fantais o fod yn Fferm Arddangos Cyswllt Ffermio?

"Gwella iechyd a lles ein hanifeiliaid sy'n arwain at gynnydd mewn proffidioldeb. Cael cyngor arbenigol wedi ei deilwra ar gyfer ein fferm."

Beth ydych chi wedi rhoi cynnig arno na fydddech chi fel arall?

"Bu Cyswllt Ffermio yn gatalydd i'n helpu i ymdrin â phroblemau pwysig ar y fferm, na fyddem wedi rhoi blaenoriaeth iddyn nhw fel arall mae'n debyg."

Pa newidiadau ydych chi wedi eu gweithredu fydd yn parhau i fod yn rhan o'ch system ffermio yn y dyfodol?

"Tagio a phrofi am BVD; rheoli a gwaredu afiechyd Johnne o'r fuches a gosod technoleg canfod buchod sy'n gofyn tarw."

Safbwyntiau Dilwyn



1 Cymryd pob cyfle i ddysgu gan eraill.



2 Gall mân newidiadau arwain at welliannau mawr.



3 Mae'n bwysig cynnal asesiadau gwndwn a rhoi blaenoriaeth i welliannau.

4 Mae'n hanfodol cael cemeg y pridd yn iawn wrth ddrilio yn uniongyrchol - y fodfedd uchaf yw'r man lle mae'r hedyn yn ymsefydlu ac yn tyfu.

Ochor

Rhun a Nerys Williams

Tregaron, Ceredigion, SY25 6QT

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos ers Mawrth 2014
- I 15 erw yn berchen iddynt
- 95 erw ar rent am dymor byr
- Yn amrywio o 400 i 650 troedfedd

MANYLION Y GWARTHEG

- 12 o fuchod magu
- 24 o wartheg stôr

MANYLION Y DEFAID

- 550 o famogiaid magu – 250 o rai Cymreig wedi eu gwella 300 miwl, yn wyna ym mis Mawrth
- 120 o wŷn benyw

AMCANION ALLWEDDOL

1. Datblygu system wartheg sy'n cyd-fynd ag adnoddau'r fferm ac yn cyfrannu at broffidioldeb cyffredinol y fferm
2. Gwella'r nifer o gilogramau o gig oen sy'n cael ei werthu gan bob dafad
3. Gwella cynhyrchiant o laswelltir
4. Gwella gwerth net y busnes
5. Anelu at fod mor effeithlon a phosib er mwyn cael cydbwysedd gwaith bywyd da

Prosiectau allweddol

1. RHEOLI MAETHOLION

Mae dadansoddi pridd a bwydo'r pridd yn ôl hynny yn hanfodol os am gael y tyfiant gorau o'r glaswellt. Ar ôl dadansoddi pridd, gweithredwyd rhaglen galchu a thargedwyd elfennau cemegol cyfansawdd at gaeau oedd yn isel mewn ffosffad (P) a photash (K) a chaeau lle'r oedd y dadansoddiad yn uchel yn cael nitrogen ar ei ben ei hun (N). Mae chwalu nitrogen ar gaeau sy'n brin o P a K yn ogystal â'r rhai sydd â pH isel yn


aneffeithiol. Gwnaeth Rhun y sylw na fyddai wedi medru targedu tail y buarth at y caeau cywir heb y wybodaeth yn ogystal â chael cydbwysedd rhwng y mewnbwn P a K lle'r oedd ei angen. Roedd caeau â pH dan 5.5 wedi cael 2 dunnell yr erw o galch gan fod y pH hwn yn cyfyngu ar dyfiant glaswellt trwy gloi'r P sydd ar gael yn y pridd yn ogystal â lleihau effeithlonrwydd chwalu N. Gall bod yn brin o un uned pH gostio mwy na £100/ha bob tymor.

2. PORTHI MAMOGIAID

Trwy gyfuniad o gneifio yn y gaeaf, newid yn y diet a gwanwyn da iawn fe sicrhawyd bod yr wŷn yn Ochor wedi cael dechrau rhagorol i'r flwyddyn eleni. Cneifiwyd rhai o'r mamogiaid y llynedd fel treial ac o ganlyniad cneifiwyd pob un o'r rhai oedd yn wyna yn gynnar ym mis Mawrth (200 o famogiaid) ar gyfer wyna yn 2014. Yn ychwanegol, penderfynwyd rhoi cynnig ar ddogn o soia a barlys eleni gyda'r efeilliaid yn cael 250g o farlys a 200g o soia a'r senglau ar silwair yn unig. Roedd gan y mamogiaid i gyd ddigonedd o laeth ac roedd yr wŷn yn fywiog ar eu genedigaeth heb unrhyw broblemau mawr o ran bwrw'r llawes goch na chlwy'r cyfeb. Bu'r cynnydd mewn protein treuliadwy aniraddadwy (DUP) yn fanteisiol o ran perfformiad.

Roedd costau porthi'r mamogiaid cyn wyna yn 2014 bron i hanner costau 2013 ar £4 y famog. Yn ystod yr haf, roedd rhaglen o wneud silwair o ansawdd ar waith gyda meillion coch a rhygwellt parhaol/meillion gwyn yn cael eu cynaeafu a'u clustnodi yn borthiant i'r mamogiaid i leihau costau porthiant wedi ei brynu i mewn ymhellach. Mae proffil gwerthiant yr wŷn (a welir yn Ffigwr 1) yn darlunio bod didol borthi mwy o wŷn a chyfuniad o dywydd da, cyflwr da'r mamogiaid â digonedd o laeth hefyd wedi chwarae rhan wrth werthu tair gwaith yn fwy o wŷn na'r arferol yn rhan gyntaf y tymor. Roedd costau'r porthiant i'r wŷn ar £4.60 yr oen yn werth y buddsoddiad gyda'r rhan fwyaf o'r 314 o wŷn yn cael eu gwerthu cyn y gostyngiad mewn prisiau.

Ffigwr 1. Proffil Gwerthiant Wŷn Misol



3. GWELLA GLASWELLTIR

Cynhaliwyd MOT ar y gwndwn ar rai o'r caeau silwair a'r caeau pori yn Ochor. Fel rhan o hyn, cadwyd golwg ar dyfiant y glaswellt am dair wythnos yn y gwanwyn. Fe wnaeth tir oedd wedi ei ail hadu dair blynedd yn ôl berfformio yn dda ond roedd hynny'n tynnu mwy o sylw at y gwendid mewn caeau eraill. Ar sail hyn penderfynwyd y byddai'r ddau gae silwair yn cael eu hail hadu.

Chwistrellwyd i ladd y tyfiant mewn cae arall a sefydlwyd cnwd o rygwelt Eidalaid a rēp trwy ddefnyddio dau ddull gwahanol. Driliwyd yn uniongyrchol yn hanner y cae a defnyddiwyd ogau glaswellt yn yr hanner arall a chwalu hadau. Bydd perfformiad y ddau ddull yn cael ei fonitro.


Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

1. Cyfradd stocio – ar hyn o bryd 1.49 uned da byw/ha – lle i gynyddu yn uwch na 1.7 uned da byw/ha
2. Bydd cyrraedd y targedau uchod yn cynyddu'r cilogramau o gig oen a werthir i bob hectar sy'n cyfateb i fwy o allbwn o'r fferm

Ffigwr 2. Canrannau sganio a magu

| | 2012-2013 | 2013-2014 | Targed |
|---------------|-----------|-----------|--------|
| Canran sganio | 157% | 164% | 170% |
| Canran magu | 136% | 156% | 160% |

Ffigwr 3. Allbwn i bob mamog (kg/mamog)



Holi ac ateb gyda Rhun

Beth yw'r brif fantais o fod yn Fferm Arddangos Cyswllt Ffermio?

"Mynediad at gyngor gan arbenigwyr blaengar a chefnogaeth gan dîm Cyswllt Ffermio."

Sut mae bod yn fferm arddangos Cyswllt Ffermio wedi eich helpu i gyllunio at y dyfodol?

"Mae'n canolbwyntio'r meddwl ar gyfeiriad y dyfodol. Mae syniadau gwahanol yn gwneud i ni feddwl am y systemau a allai gael effaith ar y fferm."

Pa newidiadau ydych chi wedi eu gweithredu fydd yn parhau i fod yn rhan o'ch system ffermio yn y dyfodol?

"Yn bendant y cneifio gaeaf a newid i ddogn soia."

Safbwyntiau Rhun



1

Dadansoddi silwair – gall porthiant o safon uchel leihau cost porthiant a brynir i mewn yn sylweddol.



2

Mae cneifio gaeaf yn gweithio i ni.



3

Mesurwch y glaswellt ym mhob cae i ddynodi perfformiad.



4

Targedwch y caeau gorau (gyda'r lefelau pH a P a K cywir) gyda lefelau N uwch.

Pentrefelin

Eurig Jenkins a'i deulu

Talsarn, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8QE

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos yn ystod y rhaglen yma ers Medi 2011
- 182 erw yn berchen iddynt
- 534 erw ar rent
- Yn amrywio o 260 troedfedd ar y tir pori

MANYLION Y GWARTHEG

- 370 o fuchod Friesian Prydeinig/Seland Newydd
- Yr holl stoc cyfnewid yn cael eu magu ar y fferm

MANYLION ERAILL

- Glastir Sylfaenol

AMCANION ALLWEDDOL

1. Tyfu'r busnes
2. Cynhyrchu llaeth yn broffidiol
3. Cadw'r fuches mewn iechyd da gyda'r pwyslais ar wella ffrwythlondeb yn barhaus
4. Lleihau costau porthiant lle mae hynny'n bosibl a gwella'r defnydd o laswellt

Prosiectau allweddol

1. CNYDAU GWRAIDD I AEFU ALLAN

Fel rhan o'r dewisiadau cynllun Glastir Sylfaenol, tyfir cnydau gwraidd ar ddarn o dir nad yw ynghlwm â'r daliad. Defnyddir y cnwd ar gyfer buchod sych sy'n pori o'r cyfnod pan fyddant yn sychu hyd yn hwyr yn eu beichiogrwydd.

Gweithiodd arbenigwr glaswelltir gyda'r teulu Jenkins i werthuso'r system. Yn 2013, tyfwyd 2.8ha o faip sofl. Cofnodwyd yr holl gostau fel y crynhoir yn *Ffig 1* gan ddangos costau cymharol cadw buchod dan do.

Ffigwr 1. Manteision cnydau gwraidd o ran costau

| Costau maip sofl | Costau cadw dan do |
|--|--|
| Costau tyfu yn £295/erw a chost ffensys/byrnau/llafur yn £2250 | Dibrisiant yr adeilad a'r storfa slyri Costau silwair, deunydd o dan yr anifeiliaid, gwaith tractor |
| Cyfanswm costau: £95.88 y dydd neu £3.20 y fuwch y dydd | Cyfanswm costau: £2.13 y fuwch y dydd |

Mae'r costau wedi eu cyfrif yn £1 y dydd yn uwch ond gan fod y cnwd yn cynnig toriad da rhwng ail hadu a phwyntiau gwerthfawr

at Glastir, roedd yn cael ei weld yn ddewis defnyddiol.

2. COFNODI GLASWELLT

Mae tyfiant glaswellt a'r defnydd ohono yn elfennau allweddol ar gyfer unrhyw fuches laeth sy'n lloea yn y gwanwyn. Mae Pentrefelin yn y pedwerydd tymor o ddefnyddio mesurydd plât a'r ail dymor o gofnodi ar y Rhaglen Agri Net. Mae cofnodi glaswellt yn hanfodol i roi rhybudd ymlaen

llaw pryd y bydd glaswellt yn brin (yn arbennig yn y gwanwyn a'r hydref) a phryd i gyflwyno porthiant ychwanegol. Gall y wybodaeth hefyd ddynodi pa badogau sydd ddim yn perfformio cystal a rhoi cyfle i ymchwilio i'r rhain. Roedd ystod y tyfiant yn 2013 yn 12.6 T DM/ha i lawr i 9.3T DM/ha.



Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

1. Cadw'r patrwm lloea – anelu at gael 50% o'r buchod i loea mewn 14 diwrnod
2. Anelu at loea'r holl fuchod cyn pen 10 wythnos
3. Anelu at loea'r holl heffrod ar ddechrau'r cyfnod lloea
4. Targedu i gyrraedd 60% o bwysau'r corff aeddfed pan yn troi at y tarw (308kg yn 2014)
5. Cadw'r gyfradd gwaredu gwartheg dan 20% (yn 2014 gwelwyd 35% yn dod i mewn i'r fuches ac felly roedd lle i waredu llawer ac ehangu'r fuches)

Holi ac ateb gydag Eurig

O'r holl gyngor, beth sydd wedi bod fwyaf manteisiol a/neu sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar eich busnes?

“Cyngor arbenigol a wnaeth gyflwyno mapio caeau i ni ar gyfer yr holl badogau pori a'n cyflwyno i'r system Agri Net.”

Beth yw eich cynlluniau at y dyfodol?

“Gwella'r llwybrau gwartheg ar y fferm.”

Beth ydych chi wedi rhoi cynnig arno na fydddech chi fel arall?

“Profi gwrtaith SCS – roedd hyn yn agoriad llygad gweld beth y mae newid bach yn y gosodiadau yn gallu ei wneud.”

Pa newidiadau ydych chi wedi eu gweithredu fydd yn parhau i fod yn rhan o'ch system ffermio yn y dyfodol?

“Byddwn yn mesur glaswellt fel rhan o'r patrwm arferol ac yn profi gwrtaith trwy SCS yn flynyddol.”



Safbwyntiau Eurig



1

Dysgwch beth yw eich costau a rheolwch nhw.



2

Mae monitro a recordio tyfiant glaswellt yn hanfodol i'n busnes.



3

Gosodwch dargedau ac adolygwch nhw'n gyson i wneud yn siŵr eich bod yn cadw at y targed.

Blaencwmpridd

James ac Alec Cowan

Synod Inn, Llandysul, SA44 6JP

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos yn ystod y rhaglen yma ers Medi 2011
- 250 erw yn berchen iddynt
- 50 erw ar rent
- Amrywio o 680 i 1,000 o droedfeddi

MANYLION Y GWARTHEG

- 120 o wartheg magu
- 120 o deirw eidion
- 40 o heffrod i'w pesgi
- 30 o heffrod magu

MANYLION Y DEFAID

- 250 o famogiaid – Miwl Cymreig

MANYLION ERAILL

- Glastir Sylfaenol

AMCANION ALLWEDDOL

1. Dod yn fwy effeithlon gyda'r nod o beidio â dibynnu ar y Taliad Sengl / Cynllun y Taliad Sylfaenol
2. Gwneud y mwyaf o dechnoleg fodern fel EID a geneteg
3. Monitro a gwerthuso'r holl gostau yn y busnes, sy'n cynorthwyo i wneud penderfyniadau pwysig
4. Gwella'r tir yn barhaus i sicrhau'r potensial mwyaf o'r cnydau


Prosiectau allweddol

1. PORI AM ELW (G4P)

Nod y prosiect hwn oedd gwella ansawdd glaswellt a borir trwy reolaeth dda ar y pori i fanteisio ar botensial llawn porfeydd. Cadarnhaodd y prosiect hwn fanteision ail

hadu ym misoedd y gwanwyn gyda 30% yn fwy o laswellt yn cael ei dyfu mewn cymhariaeth â hen wndwn.

Ffigwr 1. Cyfradd dyfu (kg DM y dydd 2013)



2. HEFFROD O HEFFROD

Mae cadw buches gaeedig yn golygu bod raid i'r gwartheg cyfnwdd gael eu magu gartref gan ddefnyddio semen â'r rhyw yn hysbys dros y pedair blynedd ddiwethaf â'r holl heffrod yn lloea yn ddwy flwydd oed. Bu'r prosiect hwn yn llwyddiannus iawn gyda'r heffrod yn cynhyrchu heffrod yn arwain at newid geneteg cyflymach a lloea haws i

heffrod ifanc, gan fod lloea gwryw yn fwy ar gyfartaledd. Mae sylw manwl i fanylion wrth sicrhau bod yr heffrod yn cael eu brechu, yn cael bolsau elfennau hybrin, eu hyfforddi yn y crysh, eu cynffonau wedi eu peintio a'u gwylio o ran gofyn tarw yn briodol, yn sicrhau cyfraddau cyfloi eithriadol, gyda ond ychydig iawn o gymorth lloea yn angenrheidiol.

3. EFFEITHLONRWYDD GWARTHEG MAGU

Mae defnydd cynyddol o fridiau cyfandirol a defnyddio teirw gyda EBV pwysau 400 diwrnod uchel wedi cynyddu maint y buchod magu, gan olygu bod eu costau cynnal a chostau porthiant yn uwch, ac efallai hefyd eu bod yn llai effeithlon o ran pwysau'r lloea wrth eu diddyfno. Mae amrywiaeth ym maint y buchod yn Blaencwmpridd o 400kg i 780kg ac fel rhan o brosiect cofnodwyd pwysau'r buchod a phwysau'r lloea wrth eu diddyfno i ymchwilio a oedd y buchod trymaf yn diddyfno'r lloea trymaf. Roedd yr heffrod llo cyntaf ar gyfartaledd 55kg yn ysgafnach na buchod llawn dwf, ond eto nid oedd gwahaniaethau mawr ym mhwsau'r lloea wrth eu diddyfno. Roedd y

buchod llo cyntaf yma yn ysgafnach gan eu bod yn lloea yn ddwy flwydd oed ac wedi eu magu o linach gyda EBV mamol da. Dangosodd dadansoddiad manwl o berfformiad buchod/lloea unigol mewn buchesi bod gwahaniaeth mawr mewn perfformiad ac maent yn dangos yn glir bod gwartheg magu ysgafnach, yn gyffredinol, yn fwy effeithlon wrth gynhyrchu pwysau i bob uned o bwysau buwch. Roedd hyn yn wir yn Mlaencwmpridd lle'r oedd y gwartheg ysgafnach yn cyrraedd y brig o ran effeithlonrwydd. Mae gwartheg mwy hefyd angen mwy o adnoddau porthiant i gynnal eu cyflwr a'u hatgennedlu er mwyn cynnal y bwch delfrydol rhwng lloea.

Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

1. Cyflwynwyd cnydau grawn a bresych yn ystod y blynyddoedd cynnar fel fferm arddangos a gychwynnodd raglen ail hadu sy'n cynnwys cnydau grawn gaeaf, swêj, maip sofrl, meillion coch a rêp. Mae'r holl gnydau yma yn arwain at brynu llai o borthiant i mewn a thargedu porthiant yn well at ddsbarthiadau gwahanol o stoc.
2. Oherwydd gwell geneteg rydym wedi lleihau'r amser i besgi gwartheg. Bum mlynedd yn ôl roedd yn cymryd 16 mis i gyrraedd 700kg o bwysau byw. Heddiw, mae'r gwartheg yn cael eu lladd yn 13 mis oed ar gyfartaledd ond gall fod cyn gynted ag 11 mis oed ar yr un pwysau o 700kg.



Teirw yn gadael yr uned 90 diwrnod yn gynharach - gyda chostau porthi ar £1.99 y dydd sy'n cyfateb i arbediad o £179 i bob tarw

3. Rydym wedi tynhau ein patrwm lloea o 6 wythnos dros y 5 mlynedd diwethaf.



Holi ac ateb gyda James ac Alec

Beth yw'r brif fantais o fod yn Fferm Arddangos Cyswllt Ffermio?

"Cael mynediad at fentoriaid o'r safon uchaf a siaradwyr sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar arferion newydd mewn amaethyddiaeth. O feddwl, yn 2000, dim ond 40 llo oedd gennym, mae'r cyngor, hyfforddiant, a'r mynediad at wybodaeth trwy Cyswllt Ffermio, yn arbennig dros y blynyddoedd diwethaf fel fferm arddangos, wedi ein helpu i gyrraedd lle'r ydym heddiw."

O'r holl gyngor, beth sydd wedi bod fwyaf manteisiol a/neu sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar eich busnes?

"Mae technoleg newydd ar gael bob amser a chanfyddiadau yn y sector amaeth ac mae'n bwysig manteisio ar y rhain i wella effeithlonrwydd y busnes i sicrhau mwy o broffidioldeb."

Beth yw eich cynlluniau at y dyfodol?

"Gan ein bod wedi stocio yn llawn ac yn cael yr allbwn mwyaf posibl o'r tir, rydym wedi prynu bloc 76 erw yn ddiweddar. Nid ydym yn rhagweld y byddwn yn ffermio ar ôl oedran ymdeol ond fe fyddem yn hoffi cynnig cyfle i'n plant ein hunain barhau yn y busnes, neu os na fyddan nhw'n dangos diddordeb, ffermwr ifanc arall."

Pa newidiadau ydych chi wedi eu gweithredu fydd yn parhau i fod yn rhan o'ch system ffermio yn y dyfodol?

"Popeth - cylchdroi cnydau, geneteg, cadw cofnodion manylach, rheoli costau, tarw potel yn y gwartheg i gael newid geneteg yn gynt, EID, mesur glaswellt."

Safbwyntiau James a Alec

- 1 Mae'r cyfraddau stocio wedi cynyddu'n ddramatig gan fod mwy o laswellt yn cael ei dyfu ac ein bod yn ail hadu a mesur glaswellt yn gyson ac yn cylchdroi cnydau yn synhwyrol.



- 2 Defnyddiwch y datblygiadau mewn geneteg - ym mhob agwedd o stoc i laswelltir.



- 3 Gwrando ar gyngor a phrofiad ffermwyr eraill ac arbenigwyr. Mae'n bwysig cadw meddwl agored a bod yn barod i newid arferion er gwell.

- 4 Mae cael dealltwriaeth dda ac ymwybyddiaeth o'r holl gostau ar draws pob menter benodol wedi ein galluogi i ehangu yn hyderus.

Bronyglyn

Gareth Morgan a'r teulu

Llanfynydd, Caerfyrddin, SA32 7TR

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos ers Ionawr 2012
- 300 erw
- 40 erw ar rent yn dymhorol
- Yn amrywio o 750 i dros 1,000 troedfedd

MANYLION Y GWARTHEG

- 70 o fuchod yn lloea yn y gwanwyn, croes Limousin yn bennaf

MANYLION Y DEFAID

- 480 o famogiaid magu – Suffolk croes Texel yn bennaf

MANYLION ERAILL

- 10 erw o gnwd cyfan
- Glastir Sylfaenol

AMCANION ALLWEDDOL

1. Gwella proffidioldeb y mentrau defaid a biff
2. Gwella cynhyrchiant y glaswelltir i gael y tyfiant mwyaf a'r perfformiad gorau gan y stoc
3. Lleihau costau mewnbwn

Prosiectau allweddol


1. GWELLA GLASWELLTIR

Yn ystod 2013, roedd cyfraddau tyfu glaswellt yn cael eu monitro mewn tri chae gwahanol i asesu pa mor gynhyrchiol oedd y gwndwn. Roedd un newydd ei ail hadu, y llall yn wndwn wyth mlwydd oed a'r trydydd yn borfa wael.

Ffigwr 1. Tyfiant glaswellt

| | Tunnell o gynnwys sych (DM) i bob hectar (Ha) | Cyfrataledd y tyfiant dyddiol kg o gynnwys sych y dydd |
|------------------------|---|--|
| Tir newydd ei ail hadu | 9.2 | 77 |
| Gwndwn 8 oed | 6.3 | 43 |
| Porfa wael | 7.3 | 55 |

Porfa wael 2. Tyfiant dyddiol y glaswellt ar 3 math o gae kg DM y dydd



Dangosir gwerth ail hadu yn glir yn y misoedd cynnar gyda thair gwaith yn fwy o laswellt yn cael ei dyfu ym mis Mai mewn cymhariaeth â'r gwndwn wyth mlwydd oed. Mae hyn yn cyfateb i saith erw o dir wedi ei ail hadu yn cynhyrchu yr un faint a 21 erw o wndwn wyth mlwydd oed. Roedd y borfa wael yn perfformio'n well na'r gwndwn wyth mlwydd oed gan fod hwnnw wedi ei botsio yn sylweddol yn 2012 a bod yno broblemau cywasgu sy'n pwysleisio eto bod angen rheoli'r pridd os yw potensial tyfu glaswellt i gael ei wireddu.

2. RHEOLI MAETHOLION

Lluniwyd Cynllun Rheoli Maetholion yn 2012 ac o'r dadansoddiad pridd roedd yn amlwg bod lefelau potash a ffosffad nifer o'r caeau yn ddigon uchel ac nad oedd angen defnyddio'r gwrtaith 20:10:10 oedd yn arfer cael ei ddefnyddio. Arweiniodd hyn at newid i roi Nitrogen yn unig sydd wedi gweld arbediad sylweddol o £1,000 y flwyddyn yn nghostau'r gwrtaith a brynir.

Prosiectau allweddol

3. EFFEITHIAU CHWALU SYLFFWR A NITROGEN AR DWF GLASWELLT

NITROGEN

Gyda'r cynnydd ym mhrisiau gwrrtaith dros y blynyddoedd gwelwyd gostyngiad yn y swm a chwalwyd. Trefnwyd cynllun treialu bychan i

weld os byddai chwalu cyfradd uwch o Nitrogen yn gost effeithiol. Defnyddiwyd pedair cyfradd a dangosir y canlyniadau yn Ffigur 3 isod:-

Ffigur 3. Cynnyrch y glaswellt a chostau

| kg N/ha | Pwysau ffres T/ha | DM/ha (20% DM) | Cost N/ha | Cost y dunnell DM |
|---------|-------------------|----------------|-----------|-------------------|
| 50 | 26 | 5.22 | £43.00 | £8.24 |
| 80 | 38 | 7.66 | £68.80 | £8.98 |
| 100 | 39 | 7.80 | £86.00 | £11.03 |
| 120 | 41 | 8.20 | £103.20 | £12.59 |

Mae'r nitrogen ychwanegol yn costio mwy ac yn codi'r pris y dunnell, ond roedd y cynnyrch i bob hectar yn well ac am £25.80 yn ychwanegol

rydych yn cael 2.44t/DM/ha yn ychwanegol. Felly mae tunnell yn £10.57 sy'n dangos bod 64 uned yr erw neu 80kg/ha werth ei wneud.

SYLFFWR

Tanlinellodd y canlyniadau o brofion ar samplau glaswellt yn 2013 bod diffyg sylffwr a allai fod yn effeithio ar y cynnyrch glaswellt, ei ansawdd ac yn dilyn hynny perfformiad anifeiliaid. Roedd Gareth yn awyddus i ymchwilio i fantais posibl gwrrtaith sylffwr.

Chwalwyd gwrrtaith nitrogen sylffwr ar hanner y cae a chwalwyd nitrogen yn unig ar yr hanner arall. Roedd y cynnyrch wrth gynaeafu fel a ganlyn a ddangosodd ymateb positif i'r gwrrtaith sylffwr:

Sylffwr + Nitrogen = 7.82 tunnell DM/ha

Nitrogen yn unig = 7.04 tunnell DM/ha

Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

1. GWELLA GLASWELLTIR

Ar sail y dybiaeth y byddai oen wedi ei ddiddfyntu yn pwyso 35kg, yn tyfu 150g y dydd gan fwyta 1kg o gynnwys sych, byddai'r cae newydd ei ail hadu yn medru cadw 76 o ŵyn yr hectar yn hytrach na 43 ar y gwndwn wyth mlwydd oed a 55 ar borfa wael.

2. GWERTHU MWY O WŶN ODDI AR LASWELLT/PESGI WŶN YN GYNT

Llwyddodd Gareth i besgi 277 o ŵyn erbyn 17 Gorffennaf ar laswellt eleni mewn cymhariaeth â 132 o ŵyn erbyn 26 Gorffennaf 2013 o ganlyniad i'r gwelliant yn y glaswelltir.

Holi ac ateb gyda Gareth

Beth yw'r brif fantais o fod yn Fferm Arddangos Cyswllt Ffermio?

"Mae cael cyngor gan arbenigwyr yn y diwydiant a gweithio gyda nhw ar brosiectau a threialon wedi fy helpu i fabwysiadu arferion newydd na fyddwn wedi eu hystyried fel arall."

O'r holl gyngor, beth sydd wedi bod fwyaf manteisiol a/neu sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar eich busnes?

"Mae'r cynllun rheoli maetholion wedi arwain at dargedu gwelliannau yn y glaswelltir yn well. Mae gwybod beth yw anghenion pob cae yn hytrach na chwalu'r un cyfuniad ar bob cae wedi arwain at gynydd mewn cynhyrchiant a gostwng costau."

Sut mae bod yn fferm arddangos Cyswllt Ffermio wedi eich helpu i gynllunio at y dyfodol?

"Mae bod yn fferm arddangos wedi fy annog i edrych yn fanylach ar gostau rhedeg fy musnes. Gyda'r newidiadau arfaethedig i'r Taliad Fferm Sengl, bydd rheoli fy nghostau yn allweddol i gadw'r fferm yn gynaliadwy."

Safbwyntiau Gareth

1 Profi pridd yn gyson – yn bwysig i dargedu tail buarth a slyri ar gnydau sydd yn defnyddio llawer o faetholion e.e. cnwd cyfan.



2 Gwirio am gywasgu – bydd cae wedi ei gywasgu byth yn tyfu cymaint o laswellt ag un sydd heb beth bynnag yw oedran y gwndwn.



3 Dadansoddi silwair a gwirio'r dadansoddiad porthiant a llunio'r dognau yn ôl hynny.



Stember

William Jenkins a'i deulu

Poyston Cross, Hwlfordd, SA62 4DX

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos ers Ionawr 2012
- Fferm laeth 150 erw
- 150 erw ar rent
- Amrywio o 160 i 210 troedfedd

MANYLION Y GWARTHEG

- 180 o fuchod yn lloea trwy'r flwyddyn
- Magu gwartheg Freisian gartref yn creu premiwm wrth werthu lloeau

AMCANION ALLWEDDOL

1. Gwella ansawdd y llaeth a'r cynnyrch i gael pris uchaf posibl am y llaeth (os bydd y cynnyrch yn gwella o 7,400 litr i 7,600 litr y flwyddyn gall hyn roi £9,600 ychwanegol i'r busnes)
2. Cynyddu hyd y cyfnod pori a chynyddu'r gyfradd stocio
3. Lleihau effaith ar yr amgylchedd i gynyddu cynaliadwyedd

Prosiectau allweddol

1. HWYHAU'R TYMOR PORI

Yn 2012 byddai'r buchod wedi cael eu troi allan i bori am y tro cyntaf tua 30 Mawrth a'u rhoi yn ôl dan do ar ddiwedd Medi, gan roi cyfnod pori o chwe mis. Trwy osod llwybrau roedd buches Stember wedi ennill mis ar ddau ben y tymor pori, gan gynyddu'r cyfnod pori o chwe mis yn 2012 i wyth mis yn 2013. Mae cael gwell arwyneb i'r llwybrau hefyd wedi gwella lles y fuches trwy leihau cloffni yr oedd cleisiau cerrig yn ei achosi.



2. GALLU'R BUCHOD I SYMUD AC ARWYDDION

Mewn ymdrech i leihau cloffni yn y fuches, rhoddwyd sgôr symudedd i'r buchod yn Hydref 2012 a gwelwyd bod 8% yn gloff. Trwy fuddsoddi mewn gwell arwyneb ar y llwybrau buchod, gan gynyddu'r sylw i ganfod problemau a'r amser oedd yn cael ei dreulio yn trimio traed, roedd y lefel wedi gostwng i 5% erbyn Ionawr a pharhau ar y lefel is o 5% yn Chwefror 2013. Mae'r gwelliannau wedi parhau i gael eu gwneud o ran sicrhau bod y buchod yn gyfforddus trwy addasiadau cymharol rad i adeiladau i gynyddu'r amser y mae buchod yn gorwedd a faint o oleuni sydd yn y ciwbiclau. Mae un achos arferol o friw ar y gwadn yn costio £196 ac felly mae 10 achos yn llai wedi arwain at arbediad posibl o £1,960.



Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

1. Anelu at fwy na 7,500 litr gan bob buwch y flwyddyn - ar hyn o bryd mae'n 7,400 litr gan bob buwch y flwyddyn
2. Sicrhau bod ansawdd y llaeth ar ei orau - ar hyn o bryd mae braster menyfwr ar 3.9% a phrotein ar 3.3%
3. Ar hyn o bryd mae'r bwlch rhwng lloeau yn 383 diwrnod - sydd wedi gostwng o 410 diwrnod

Holi ac ateb gyda William

Beth yw eich cynlluniau at y dyfodol?

"Rydym yn parhau i weithio i leihau oedran ein heffrod yn cael y llo cyntaf, sydd yn rhywbeth y mae ein hymgyngorydd wedi bod yn ein mentora ni arno. Mae gennym darw Angus newydd i'w ddefnyddio ar heffrod a ddylai fod yn haws i'w lloea na'r un yr oeddem yn ei ddefnyddio o'r blaen sy'n rhoi yr hyder i ni eu hanfon at y tarw yn gynt."

Beth ydych chi wedi rhoi cynnig arno na fydech chi fel arall?

"Fydden ni ddim wedi gwneud unrhyw waith dan y pridd oni bai am gynllun treialu ar ddraeniad a chywasgiad. Mae'r cae y gweithredwyd triniaeth dan y pridd arno fel rhan o'r treial yn awr yn cynhyrchu llawer mwy ac mae llai o chwyn ynddo na'r ardal a adawyd fel ardal reoli. Rydym yn bwriadu cynyddu'r ardal i gael triniaeth fel hyn trwy ddefnyddio rholer gyda phigau tu ôl i'r buchod pori."

Safbwyntiau William

1

Mae tyllu tyllau a chasglu samplau yn ffordd ddelfrydol a syml o edrych ar ansawdd y pridd - mae dynodi a thrin ardaloedd sydd wedi eu cywasgu wedi cynyddu tyfiant y glaswellt yn sylweddol, ac nid oeddem wedi bod yn ymwybodol o'r diffyg perfformiad o'r blaen.



2

Gellir gwneud newidiadau isel eu cost i adeiladau/ dyluniad seilwaith i wneud gwahaniaeth mawr i pa mor gyfforddus yw'r buchod, e.e. cynyddu'r lle i symud i orwedd, cyflwyno mwy o olau a gwella'r awyru a bydd y cyfan yn arwain at fanteision o ran iechyd anifeiliaid.



3

Mae buddsoddi mewn llwybrau buchod wedi cynyddu ein tymor pori yn sylweddol gan fod y buchod yn gallu teithio o gwmpas y fferm heb botsio yn hwy.



4

Roeddem yn meddwl bod gennym broblemau cloffni ac er bod y monitro yn dangos ein bod yn perfformio yn well na'r mwyafrif, fe wnaethom ganolbwyntio ar y mater ac rydym wedi medru gwneud gwelliannau.





Winterton

Steve a Liz Ford

Marloes, Hwlfordd, SA62 3AS

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos ers Ionawr 2012
- 220 erw
- Amrywio o 30 i 150 troedfedd

MANYLION Y GWARTH EG

- 120 o wartheg stôr yn cael eu magu yn flynyddol

MANYLION Y DEFAID

- 310 mamog yn yna yn gynnar – Suffolk croes miwl yn bennaf

MANYLION ERAILL

- Cynhyrchu barlys hâd gyda chnydau oddi tanynt
- Cynhyrchu tatws sglodion cynnar heb garega

AMCANION ALLWEDDOL

1. Gwella perfformiad y ddiadell trwy ddyndodi a chael gwared ar famogiaid sy'n tanberfformio
2. Defnyddio data i helpu i gynyddu effeithlonrwydd a chael yr elw mwyaf
3. Gwneud defnydd gwell o borthiant wedi ei dyfu gartref

Prosiectau allweddol

1. DULLIAU HAU DAN GNYDAU

Yn draddodiadol mae gwndwn glaswellt yn cael ei hau dan farlys yn Winterton ac fel arfer bydd yr hadau glaswellt a'r hadau barlys yn cael eu hau ar yr un pryd. Penderfynwyd ceisio gadael pythefnos rhwng hau'r hadau barlys a glaswellt er mwyn i'r barlys ymsefydlu cyn y gwndwn. Dylid gweld

cynnydd yng nghynnyrch y barlys (sy'n arbennig o werthfawr mewn cnwd o farlys had) a hefyd byddai'n golygu y gellid defnyddio chwynladdwyr nad ydynt yn ddiogel i feillion. Arweiniodd gwanwyn gwael 2013 at fwch o 4 wythnos rhwng y barlys a'r gwndwn ac o ganlyniad ni wnaeth y gwndwn ymsefydlu a bu'n rhaid ei ail wneud.

2. EFFEITHLONRWYDD MAMOGIAID

Mae llawer o gynhyrchwyr yn edrych ar bwysau eu mamogiaid yng nghyswllt eu heffeithlonrwydd. Cynhaliodd Winterton brosiect oedd wedi ei gynllunio i ddeall effaith maint y famog ar effeithlonrwydd y ddiadell. Gyda phryderon am y costau

porthiant sy'n gysylltiedig â mamogiaid trymach, canfu'r prosiect, heb edrych ar y lefelau cynhyrchu cyffredinol ac amgylchiadau unigol y ddiadell, ei bod yn bosibl gorbwysleisio gwerth mamogiaid ysgafnach i broffidoldeb y ddiadell.

Ffigur 1. Pwysau'r famog a' i gofynion porthiant

| Tybiaethau (kg) | Cyfartaledd yr hyn a fwyteir yn ddyddiol Gofynion cynnwys sych dyddiol o 2% o bwysau'r anifail | Enghraifft o gostau porthiant blynyddol Cyfartaledd cost porthiant cynnwys sych o £0.1/kg/DM gan ystyried yr holl gostau pori, cnwd porthiant wedi ei gadw a dwysfwyd |
|-----------------|---|--|
| 50 | 1 kg | £36.50 |
| 60 | 1.2 kg | £43.80 |
| 70 | 1.4 kg | £51.10 |
| 80 | 1.6 kg | £58.40 |

Ar yr olwg gyntaf roedd y canlyniadau yn awgrymu mai mamogiaid ysgafnach fyddai fwyaf proffidol yn y ddiadell ond mae mamogiaid trymach yn dueddol o gael eu cysylltu â: mwy o

bwysau yn yr ŵyn ar eu genedigaeth, cyfraddau tyfu cyflymach yn yr ŵyn a'r mamogiaid yn fwy o werth wrth eu gwaredu. Dangosir y manteision allweddol yn Ffigur 2.

Ffigur 2. Manteision o'r prosiect effeithlonrwydd y famog

| Mamogiaid trymach | Mamogiaid ysgafnach |
|---|---|
| Pwysau'r ŵyn wrth eu geni yn uwch | Anghenion bwyd yn is |
| Yn gallu gwella cyfradd dyfu'r ŵyn | Cyfradd stocio uwch |
| Mwy cynhyrchiol (mewn rhai enghreifftiau) | Dewis targedau trwy ddefnyddio hyrddod uchel yn y mynegai |
| Gwerth y famog i'w gwaredu'n uwch | |

Holi ac ateb gyda Steve

O'r holl gyngor, beth sydd wedi bod fwyaf manteisiol a/neu sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar eich busnes?

"Mae profi'r pridd ar y fferm i gyd wedi ein helpu i wneud arbediadau sylweddol ar wrtaith – tua £2,500 yn llai o wariant yn 2013 nag yn 2012. Rydym yn bwriadu profi pridd ar 25% o'r fferm yn flynyddol, i sicrhau ein bod yn mynd o gwmpas y fferm gyfan bob pedair blynedd, a byddwn yn ymchwilio i unrhyw gaeau sy'n tanberfformio."

Beth yw eich cynlluniau at y dyfodol?

"Mae gennym dri o blant, felly mae'n rhaid i ni ystyried ein cynlluniau olyniaeth i sicrhau ffordd deg i'r busnes barhau pan na fyddwn ni yma. Fe fyddwn yn gweithredu rhai o'r nodweddion dylunio a drafodwyd yn ein diwrnod agored diweddaraf oedd yn edrych ar ddylunio adeiladau aml-bwrpas."

Beth ydych chi wedi rhoi cynnig arno na fyddech chi fel arall?

"Rydym yn sganio ein defaid bob amser cyn ŵyna, ond nid oeddem yn eu rheoli mewn grwpiau ar wahân yn y gorffennol. Yn dilyn trafodaethau rydym wedi eu rhannu ac fe wnaethom arbed 800kg o borthiant ar y 64 o famogiaid oedd yn cario un oen yn unig yn y tair wythnos cyn ŵyna. Nid oedd yr ad-drefnu yn costio dim yn ychwanegol, a hefyd roedd porthi yn ôl y gofynion wedi lleihau'r problemau wrth ŵyna'r ŵyn sengl, heb unrhyw niwed i bwysau'r ŵyn ar eu genedigaeth."



Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

1. Sicrhau bod cynnyrch y cnwd barlys gwanwyn yn 2.98 tonnall yr erw o leiaf
2. Sicrhau bod yr ŵyn yn ennill pwysau ar gyfartaledd o 0.29kg y dydd o'u geni hyd eu lladd
3. Cyfartaledd y nifer o ddyddiau i ŵyn tew hyd eu lladd yn 115 diwrnod
4. Cadw'r canran sganio defaid yn uwch na 179% (ffigwr 2013)

Safbwyntiau Steve



1

Gall defnyddio data a thechnoleg EID helpu i wella perfformiad y ddiadell a gwella effeithlonrwydd.

2

Nid oes unrhyw bwynt casglu data os na fyddwch yn gallu ei ddefnyddio i gael dylanwad ar eich penderfyniadau rheoli.



3

Ni ellir anwybyddu iechyd a diogelwch; nid oes ail gyfle – gwnewch y defnydd gorau o'r plac cyfeirnod grid Cyswllt Ffermio.

4

Wrth oedi hau o dan barlys gwanwyn roedd sefydliad y gwndwn yn sal iawn, sydd yn tansellio pa mor ddibynnol ar y tywydd y mae'r dull hwn.





Frowen

Ben Anthony a Diana Fairclough

Frowen, Login, Hendy Gwyn ar Daf, SA34 0TP

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos ers Mehefin 2013
- 145 erw yn berchen iddynt
- 110 erw ar rent
- Amrywio o 350 i 500 troedfedd

MANYLION Y GWARTHEG

- 40 o wartheg magu

MANYLION Y DEFAID

- 610 o famogiaid magu

MANYLION ERAILL

- Glastir Sylfaenol a Choetir Glastir
- 370 o dyrchw a 250 o ieir ar gyfer marchnad y Nadolig

AMCANION ALLWEDDOL

1. Gostwng costau porthiant y fenter ddefaid heb leihau'r cynhyrchiant
2. Cynyddu'r ganran o ŵyn sy'n cael eu magu
3. Gwerthuso gwahanol ddulliau sefydlu ar gyfer cynydu brassica i weld pa rai sydd fwyaf effeithiol
4. Cyflwyno technoleg EID i'r fenter ddefaid
5. Cynyddu'r cilogramau o gig oen sy'n cael eu gwerthu i bob hectar

Prosiectau allweddol

1. TREIALU DULLIAU GWAHANOL O SEFYDLU CNYDAU BRASSICA

Treialwyd tri dull o sefydlu cnwd o rêp a maip sofr i'w ddefnyddio i besgi ŵyn. Y dull cyntaf oedd hau ar dir wedi ei droi, yr ail oedd defnyddio dril yd ar dir wedi ei droi a'i lyfnu, a'r trydydd oedd drilio yn uniongyrchol.

Gweithiodd y tri dull yn dda gyda chynnyrch o 8.3T DM/ha i 13.2 T DM/ha, gyda'r troi a'r dril yd yn dangos y mwyaf o gynnyrch.

Ffigwr 1. Y costau nodweddiadol yn gysylltiedig â chyfradd hadau gan ddefnyddio amrywiol ddulliau sefydlu

| | Cyfradd hadau ar 2kg yr erw | Cynnyrch DM/ha |
|---------------------------------------|-----------------------------|----------------|
| Aredig, chwalu hadau ac oged laswellt | £201.76 | 8,470 kg |
| Arad a dril yd | £197.76 | 13,200 kg |
| Drilio yn uniongyrchol | £177.64 | 8,300 kg |

2. MAETHIAD Y FAMOG – CYN AC AR ÔL WYNA

Derbyniodd Ben a Diana gyngor arbenigol i ffurfio dognau bwyd i'r mamogiaid yn y cyfnod cyn ŵyna ac ar ôl hynny. Roedd y dognau yn seiliedig ar ganlyniadau'r samplau silwair. Llwyddwyd i arbed arian ar gostau porthi, ynghyd ag ŵyna rhwydd (gellir gweld y canlyniadau yn Ffigwr 2).

3. DEFNYDDIO EID

Mae EID wedi eu galluogi i fonitro perfformiad mamogiaid ac ŵyn ac i wneud penderfyniadau ar sail y wybodaeth a gasglwyd. Bu newid ym mrd y mamogiaid cyfnwid gan fod y ffigyrau wedi dangos gwahaniaeth sylweddol yn y canrannau magu rhwng y gwahanol fridiau. Gellir gweld golwg gyffredinol ar berfformiad y ddiadell yn Ffigwr 3.

Mesurwyd perfformiad ŵyn o hyrddod gwahanol ac effaith ategu elfennau hybrin i gyd trwy ddefnyddio EID.

Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

1. Lleihau costau porthiant i'r ddiadell (cafodd y tywydd effaith ar gostau yn 2013, ond gwelwyd gostyngiad sylweddol yn 2014).

Ffigwr 2. Costau y pen y flwyddyn




2. Cynyddu % sganio a % magu wŷn

Ffigwr 3. Perfformiad y ddiadell

| Blwyddyn | % Sganio | Nifer yr wŷn wrth sganio | Nifer yr wŷn a fagwyd | % A fagwyd | % a gollwyd rhwng sganio a'u magu |
|--|----------|--------------------------|-----------------------|------------|-----------------------------------|
| 2011 (522 mamog + wŷn benyw) | 150 | 783 | 725 | 139 | 7.4 |
| 2012 (574 mamog + wŷn benyw) | 165 | 950 | 791 | 138 | 16.7 |
| 2013 (688 mamog + wŷn benyw) | 156 | 1075 | 835 | 121 | 22.3 |
| 2014 (609 mamog + wŷn benyw) | 156 | 950 | 832 | 137 | 12.4% |

3. Gwerthu wŷn yn gynharach trwy dynhau'r cyfnod wŷna, defnyddio hyrddod sy'n tyfu'n dda, gwella'r glaswelltir a newid maethiad y mamogiaid wrth wŷna.

Ffigwr 4. Cymharu gwerthiant wŷn



Holi ac ateb gyda Ben a Diana

Beth yw'r brif fantais o fod yn Fferm Arddangos Cyswllt Ffermio?

"Mynediad at gyngor a gwybodaeth perthnasol gan arbenigwyr yn y diwydiant a wnaeth ein hannog i newid neu wella systemau'r fferm ac a arweiniodd at gynydd. Bu cyflwyno EID yn fanteisiol o ran cyfraddau tyfu a monitro perfformiad."

A oes unrhyw beth yr ydych wedi rhoi cynnig arno na fydddech yn ei wneud eto neu unrhyw wersi a ddysgwyd?

"Ni fyddwn yn cneifio wŷn stôr bellach gan na fu unrhyw fantais o ran pwysau ychwanegol yn yr wŷn a werthwyd."

O'r holl gyngor, beth sydd wedi bod fwyaf manteisiol a/neu sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar eich busnes?

"Hyd yn hyn, cynllunio maethiad i'r mamogiaid cyfeb sydd wedi bod fwyaf manteisiol. Llwyddwyd i ostwng y costau yn sylweddol trwy arbed ar borthiant a brynwyd, ynghyd ag wŷna cymharol ddidrafferth, gan arwain at ragor o arbediadau o ran costau meddyginiaethau a llafur."

Beth yw eich cynlluniau at y dyfodol?

"Rydym yn bwriadu gostwng y nifer o wartheg er mwyn ehangu'r fenter ddefaid a chanolbwyntio ar ganrannau sganio uwch.

Rydym yn sicr am barhau i wella ein systemau rheoli glaswelltir, ac adeiladu ar y gwelliannau i'n system pori."

Beth ydych chi wedi rhoi cynnig arno na fydddech chi fel arall?

"Heb fod yn fferm arddangos, fydden ni yn sicr ddim wedi defnyddio system bori cylchdro ar Frowen."

Safbwyntiau Ben a Diana

1. Rhoi gwariant yn nhrefn blaenoriaeth - allwch chi ddim gwneud popeth ar unwaith.
2. Canolbwyntio ar fuddsoddiadau tymor hir a'r enillion ohonynt.



3. Cael cyngor ar ffurfio dognau defaid.



4. Cynnig ar bori cylchdro.

5. Parhau i wella a symud ymlaen - peidio â sefyll yn llonydd.

Plas

Lloyd Thomas a'r teulu

Bancyfelin, SA33 5DB

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos ers Ionawr 2012
- 320 erw yn berchen iddynt
- 300 erw ar rent
- Amrywio o 90 i 150 troedfedd

MANYLION Y GWARTHEG

- 350 o fuchod Holstein yn lloea trwy'r flwyddyn, gyda'r holl stoc cyfnewid yn cael eu magu

MANYLION ERAILL

- 60 erw o India corn
- 28 erw o gnwd cyfan
- Glastir Sylfaenol

AMCANION ALLWEDDOL

1. Cynhyrchu porthiant o safon uchel a digon ohono
2. Cael yr allbwn mwyaf o'u hadnoddau eu hunain
3. Cyflawni'r lefelau effeithlonrwydd mwyaf gan gadw cysondeb o ran cynhyrchiant ac ansawdd
4. Gwneud y mwyaf o'r maetholion sydd ar gael ar y fferm

Prosiectau allweddol


1. TREIAL AIL HADU GLASWELLTIR

Ail hadwyd ardal 27 erw gyda gwahanol gymysgedd o hadau, i weld pa un fyddai fwyaf addas i'r fferm/tir dan sylw o ran cynhyrchiant a gwytnwch. Ail hadwyd ardal 27 erw gyda gwahanol gymysgedd o hadau, i weld pa un fyddai fwyaf addas i'r fferm/tir dan sylw o ran cynhyrchiant a gwytnwch.

2. DEFNYDDIO PROFFILIAU METABOLIG I WELLA FFRWYTHLONDEB

Nod y prosiect oedd gweithio gyda milfeddygon ar raglen profi gwaed gyson i asesu diet y buchod i ymchwilio i'r lefelau egni ac unrhyw ffactorau eraill sydd wedi arwain at welliant sylweddol yn y mynegai lloea. Bu'r milfeddyg, maethegydd a'r ffermwr yn gweithio'n glos fel tîm i wella'r mynegai lloea.

Ffigwr 1. Canlyniadau Mynegai Lloea Blyneddol



*(gan dybio bod arbediad o £5.60 y fowch y dydd am bob diwrnod y mae'r cyfnod lloea yn cael ei ostwng)

Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

1. Cymhareb llaeth i borthiant (2012-13 0.34L/kg / 2013-14 0.32L/kg).
2. Lefelau ffrwythlondeb – canfod 63% o'r buchod yn gofyn tarw o'i gymharu a'r cyfartaledd Cenedlaethol o 50%.
3. Mae'r nifer o ddyddiau hyd at gymryd tarw am y tro cyntaf yn 55 diwrnod ar gyfartaledd a'r dyddiau hyd at gyfloi yn 119 o ddiwrnodau.
4. Mae'r mynegai lloea yn cael ei fonitro yn ofalus – 396 diwrnod ar hyn o bryd.
5. 57% o'r fuches mewn llo erbyn 100 diwrnod yn llaetha.

Holi ac ateb gyda Lloyd

O'r holl gyngor, beth sydd wedi bod fwyaf manteisiol a/neu sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar eich busnes?

“Mae cyngor ar laswelltir wedi cael manteision anferth ac rydym yn awr yn canolbwyntio ar gynyddu cynhyrchiant ein tir trwy roi sylw i iechyd y pridd.”

Beth ydych chi wedi rhoi cynnig arno na fydddech chi fel arall?

“Wrth fod yn fferm arddangos, rydym wedi cynnal treial ail hadu yn cymharu gwahanol gymysgedd o hadau mewn un cae. Rwyf wedi dysgu y gall y cynnyrch fod yn wahanol iawn a'i fod yn dibynnu ar y gymysgedd a ddefnyddir.”

Beth yw eich cynlluniau at y dyfodol?

“Ein cynllun yw parhau i adeiladu ar yr hyn yr ydym wedi ei ddysgu hyd yn hyn a pharhau â'r gwaith ail hadu sydd wedi ei ddechrau. Ein nod yw cynhyrchu rhagor o laswellt o well ansawdd, sy'n arwain at gynhyrchu mwy o laeth.”



Safbwyntiau Lloyd

1 Ystyried pwysigrwydd ail hadu bob amser o ran ansawdd a swmp y porthiant sy'n cael ei gynhyrchu.



2 Defnyddio dadansoddiad pridd fel sail ar gyfer unrhyw waith rheoli ar laswelltir neu waith trin y tir.

3 Mae bob amser rhywbeth newydd i ddysgu gan gynhyrchwyr eraill, mawr a bach.

4 Gwirio a chynnal pH y pridd yn gyson.



Gop

Meilir Jones a'r teulu

Trelawnyd, LL18 6DG

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos ers Mehefin 2012
- 210 erw yn berchen iddynt
- 50 erw ar rent
- Amrywio o 260 i 650 troedfedd

MANYLION Y GWARTHEG

- 1,000 o wartheg yn cael eu prynu a'u pesgi yn flynyddol

MANYLION Y DEFAID

- 450 o famogiaid mewn oed yn cael eu prynu yn flynyddol
- 100 o famogiaid Charollais

MANYLION ERAILL

- 10 erw o fetys porthiant
- Glastir Sylfaenol

AMCANION ALLWEDDOL

1. Monitro costau ac arbed arian lle mae hynny'n bosibl
2. Gwella'r cyfleusterau cadw dan do a thrin i wella lles yr anifeiliaid a lleihau costau llafur
3. Buddsoddi mewn technoleg EID i wella'r rhaglen fonitro gwartheg
4. Dynodi pa fath o anifail sy'n perfformio orau ar y system er mwyn eu cadw yn y dyfodol

Prosiectau allweddol

1. RHEOLI GWARTHEG TRWY EID


Gyda'r elw yn prinhaus yn barhaol yn y sector bíff, roedd Meilir yn awyddus i weld pa enillion y gallai eu gweld trwy reoli'r fenter yn well. Gyda'r dogn bwyd yn costio £2 y pen y dydd, rhaid i'r gwartheg fod yn ennill o leiaf 1.2kg o bwysau byw y dydd, mae hyn yn ddangosydd perfformiad allweddol hanfodol i'r busnes. Mae crysh gwartheg a brynwyd yn ddiweddar gyda darllynydd EID wedi ei gwneud yn llawer haws i fonitro perfformiad pob anifail ac i'r broses gymryd llawer llai o amser.

Trwy ddefnyddio EID a chasglu data ar yr holl anifeiliaid, mae'n hawdd canfod a rheoli'r rhai sy'n perfformio'n wael. Mae'r siart cylch yn *Ffigwr 1* yn dangos nad yw nifer o'r anifeiliaid yn perfformio cystal â'r targed o 1.2kg o gynnydd yn eu pwysau byw dyddiol. Bydd canfod a rheoli'r anifeiliaid yma yn amcan allweddol i'r busnes wrth symud ymlaen. Bydd y gwartheg sy'n tanberfformio naill ai yn cael eu gwerthu ar unwaith neu eu rheoli yn wahanol er mwyn cynyddu'r pwysau byw y maent yn ei ennill bob dydd. Bydd defnyddio EID yn y gwartheg yn gwella'r rheolaeth ar y gwartheg ac yn hwyluso'r ffordd i wneud penderfyniadau cyflymach ar unigolion ac felly yn lleihau'r amser sy'n cael ei dreulio ar reoli'r gwartheg.

2. SIEDIAU'R GWARTHEG

Ers prynu Gop, mae Meilir wedi bod yn gwneud y defnydd gorau o adeiladau'r fferm fel ag y maent. Yn anffodus, nid materion lles anifeiliaid oedd y brif ystyriaeth wrth eu cynllunio e.e. awyru, pa mor gyfforddus yw'r gwartheg. O ganlyniad i fonitro perfformiad y gwartheg yn ofalus daeth i weld yr effaith y mae ffactorau o'r fath yn eu cael ar anifeiliaid. Mae Meilir yn awr yn addasu'r adeiladau gydag atebion cymharol rad i wella'r llif aer yn yr adeiladau a ddylai gael effaith ar gynhyrchiant yn gyffredinol.

Ffigwr 1. Cynnydd pwysau byw'r gwartheg a werthwyd ym Mai 2014



- Cynnydd pwysau byw dyddiol dan 1.2 kg
- Cynnydd pwysau byw dyddiol yn uwch na 1.2 kg

Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

1. Sicrhau bod pob anifail biff yn cyrraedd neu'n mynd heibio i'r cynnydd pwysau byw dyddiol o 1.2kg. Dyma'r lleiafswm o ran gofynion tyfu i gael elw ac i dalu am gostau'r dogn o £2 y dydd.
2. Gwerthu 1.5 o wŷn i bob un o'r 450 mamog, ac adfer gwerth cychwynnol y mamogiaid yn y farchnad.

Holi ac ateb gyda Meilir

Beth yw'r brif fantais o fod yn Fferm Arddangos Cyswllt Ffermio?

"Codi safonau effeithlonrwydd yn y fenter biff trwy fonitro costau, cynnydd dyddiol yn y pwysau byw, bridiau, effeithlonrwydd o ran porthiant a pherfformiad."

Pa wersi gwerthfawr ydych chi wedi eu dysgu?

"Rydym wedi dysgu bod pa mor gyfforddus yw'r gwartheg yn allweddol bwysig. Mae gwella'r llif aer yn yr adeilad wedi gwella iechyd y fuches."

O'r holl gyngor, beth sydd wedi bod fwyaf manteisiol a/neu sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar eich busnes a sut mae hyn wedi eich helpu i symud ymlaen at y dyfodol?

"Mae gweithredu system fonitro EID wedi ein galluogi i werthuso'r cynnydd dyddiol mewn pwysau byw yn y gwartheg."



Safbwyntiau Meilir

1

Monitro costau i werthuso perfformiad y busnes bob amser – mae ein system EID yn galluogi monitro a recordio manwl gywir.



2

Mae cynllunio iechyd y fuches yn hanfodol i drin ac atal afiechydon.



3

Cofiwch am iechyd a diogelwch ar y fferm. Mae ein crysh hydrologig a system drin newydd wedi gwneud trin a thrafod y gwartheg yn haws, gwella lles anifeiliaid a iechyd a diogelwch.



Carreg Y Llech

Terrig ac Edward Morgan a'r teulu

Treuddyn, Yr Wyddgrug, CH7 4NZ

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos ers Chwefror 2012
- 179 erw yn berchen iddynt
- 136 erw ar rent
- Amrywio o 600 i 850 troedfedd

MANYLION Y GWARTHEG

- 220 buwch odro, yn cael eu cadw mewn ciwbiclaau yn y gaeaf ac yn pori yn yr haf
- 60 heffer gyflo
- 60 heffer hyd at 12 mis oed

MANYLION ERAILL

- 30 erw o wenith gaeaf
- 15 erw o india corn
- Glastir Sylfaenol

AMCANION ALLWEDDOL

1. Cynnal cyfradd stocio o 220 o fuchod llaeth
2. Rhedeg busnes effeithlon a phroffidiol
3. Cynyddu'r cynnyrch llaeth o 8,500 litr i 9,000 y fuwch y flwyddyn
4. Cynhyrchu stoc cyfnewid cryf iach i loea yn 22-24 mis neu'n gynharach

Prosiectau allweddol

1. IECHYD Y FUCHES

Fe wnaed gwaith sgrinio am afiechyd Johnne, cymerwyd 30 sampl gwaed ac roedd y canlyniadau yn awgrymu bod 35% o'r fuches wedi eu heintio. Os na fyddai unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud byddai'n debygol y byddai 90% o'r fuches wedi eu heintio erbyn 2017. Yn dilyn y sgrinio cychwynnol, mae Carreg y Llech yn awr yn cynnal profion bedair


gwaith y flwyddyn er mwyn canfod unrhyw fuchod sydd â'r afiechyd. Trwy brofi am afiechyd Johnne yn y fuches gyfan, nid yw'r lefelau o'r afiechyd yn y fuches mor uchel ag y tybiwyd i ddechrau. Os bydd unrhyw fuchod yn cael eu dynodi fel rhai all fod wedi eu heintio, mae pob un ohonynt yn cael eu tagio ac yn cael ei rhoi i darw biff neu ei gwaredu.

2. CAEL Y PERFFORMIAD GORAU TRWY FONITRO

Defnyddiwyd bolysau rwmen i fesur pH a thymheredd – fe'u gosodwyd mewn chwe buwch mewn grwpiau porthi gwahanol. Mae hyn yn rhoi golwg ar pa mor dda y mae'r buchod yn perfformio trwy sicrhau bod y pH yn cael ei gynnal o gwmpas y ffigwr delfrydol o 5.8 a hefyd i ddynodi patrymau bwyta ac yfed. Trwy hyn gellir gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth i addasu dognau pan fydd angen hynny cyn i'r problemau gael eu hadlewyrchu yn y cynnyrch llaeth. Gostyngwyd y ddogyn yn y parlwr o 0.5kg (sy'n cyfateb i £825 y mis) a chynyddodd y swmp o

wellt oedd yn cael ei fwyta gyda bicarbonad o sodiwm i weithredu fel byffer yn y rwmen. Yn Ffigwr 1 gwelir sampl o ddarleniad pH wrth ddefnyddio'r bolws. Mae'r ardal werdd yn cael ei galw yn ardal ddiogel o ran asidosis ac mae'r ardal goch yn dangos y llinell pH 5.8 yr ydym yn ei galw yn ardal risg asidosis. Nid yw'r gwartheg mewn perygl o asidosis ar unwaith pan fyddant yn mynd yn is na'r llinell ac mae'n dibynnu faint o amser y maen nhw'n ei dreulio yn yr ardal risg. Mae gwartheg sy'n treulio >5 awr y dydd dan y llinell goch mewn risg lawer uwch o gael asidosis.

Ffigwr 1. Graff o'r pH dros 9 diwrnod



Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

1. Gweithio gyda milfeddyg y fferm i gynnal statws ffrwythlondeb y fuches.


Ffigwr 2. Ystadegau Ffrwythlondeb

| | Nifer a drowyd at y tarw | Cyfradd gyfloi | Cyfradd gyflwyno |
|--|--------------------------|----------------|------------------|
| Perfformiad ar gyfartaledd 2012 - 2013 | 429 | 36% | 84% |
| Perfformiad ar gyfartaledd 2013 - 2014 | 453 | 42% | 80% |
| Targed | 450 | 40% | 80% |

2. Mae lleihau'r nifer o achosion o fastitis wedi arbed £225 y fuwch i'r busnes a mantais o fwy na £11,000 yn flynyddol. Y targed yw cynnal y nifer isel o achosion mastitis sydd ar hyn o bryd o ddim mwy na 30 buwch ym mhob 100.

Ffigwr 3. Lefelau o fastitis

- Nifer o fuchod llaeth
- Nifer o achosion i bob 100 o fuchod



Holi ac ateb gydag Edward

Beth yw'r brif fantais o fod yn Fferm Arddangos Cyswllt Ffermio?

"Cael y cyfle i edrych ar brosiectau gwahanol, rhyngweithio gyda ffermwyr eraill a dysgu o brofiadau pobl eraill."

O'r holl yngor, beth sydd wedi bod fwyaf manteisiol a/neu sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar eich busnes?

"Mae canolbwyntio ar iechyd y buchod a chael gwell dealltwriaeth o faethiad wedi rhoi mwy o gynnyrch i ni gydag ychydig iawn o gostau ychwanegol, dim o gwbl mewn rhai achosion."

Beth yw eich cynlluniau at y dyfodol?

"Wrth edrych i'r dyfodol, y nod fydd magu'r holl stoc cyfnewid o heffrod gan ddefnyddio semen y mae'r rhyw yn hysbys gan ddefnyddio teirw Genomig gyda ffrwythlondeb uchel ac oes hir."

Beth ydych chi wedi rhoi cynnig arno na fydddech chi fel arall?

"Mae gwiriadau iechyd am afiechyd Johne yn awr yn rhan bwysig o'n polisi ffermio i fonitro'r sefyllfa."

Safbwyntiau Edward


- 1 Pwysigrwydd rheoli gwartheg sych a sicrhau eu bod yn cael y dogn cywir.



- 2 Mae profi am afiechyd Johne wedi cynyddu'r ymwbyddiaeth o sut i reoli'r afiechyd.



- 3 Sicrhau bod y buchod yn gyfforddus, sy'n arwain at lai o gloffni ac oes hwy.



- 4 Bathio traed 3 gwaith yr wythnos i leihau dermatitis digidol.

Hafod y Maidd

Iwan ac Eleanor Davies

Glasfryn, Corwen, LL21 0RY

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos ers Hydref 2013
- 1,150 erw o dir yn cynnwys tir sy'n berchen iddynt ac ar rent
- Amrywio o 900 - 1,400 troedfedd mewn Ardal Lai Ffafirol

MANYLION Y GWARTHEG

- 85 o fuchod croes Belgian Blue a Limousin a Luing

MANYLION Y DEFAID

- 1,000 o famogiaid magu cymysgedd o Penderyn a Cheviot croes Texel

MANYLION ERAILL

- 20 erw o swêj yn flynyddol
- 17 erw o farlys
- Glastir Sylfaenol ac Uwch

AMCANION ALLWEDDOL


1. Cynyddu'r fuches sugno i 110 o wartheg cyn pen pum mlynedd
2. Symud oddi wrth fridiau cyfandirol o wartheg at fridiau cynhenid caletach er mwyn defnyddio'r borfa ymylol yn well a lleihau costau
3. Lleihau'r mynegai lloea o 410 diwrnod i wella proffidioldeb y fuches

Prosiectau allweddol


1. EFFEITHLONRWYDD GWARTHEG

Am y chwe mis diwethaf, mae Iwan wedi bod yn edrych ar effeithlonrwydd gwartheg magu trwy gymharu'r fuches groesfrid gyfandirol bresennol â'r gwartheg Luing a

brynodd yn ddiweddar. Fe wnaeth dadansoddiad ariannol o'r busnes fferm ddynodi meysydd lle gellid gwella er mwyn cynyddu'r fuches yn effeithlon.



Y FUWCH BROFFIDIOL:



2. STATWS IECHYD Y FUCHES

Bu Iwan yn gweithio gyda'i filfeddyg i greu cynllun iechyd trylwyr ond ymarferol ar gyfer y gwartheg a'r defaid. Gan ganolbwyntio ar ffrwythlondeb y gwartheg, mae'r fuches wedi ei phrofi yn drylwyr ac mae canlyniadau'r profion gwaed wedi annog Hafod y Maidd i ymuno â Chynllun Iechyd SAC.

Nid oes afiechyd Johne ar y fferm ac yn awr bydd yn brechu rhag BVD ac IBR er mwyn gweithio tuag at statws iechyd llawn. Y nod yw cynhyrchu lloeaau iachach a buchod sy'n cyfloi yn gynt.

Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

1. Mesur pwysau'r lloea wrth eu diddyfnu mewn cymhariaeth â phwysau'r fuwch gyda'r nod o gyrraedd 50% o bwysau'r fuwch yn 200 diwrnod oed.
2. Mae'r mynegai lloea yn 410 diwrnod ar hyn o bryd, ond yn anelu at ei leihau i 365 diwrnod. Gallai hyn olygu arbediad blynyddol o £13,387.50 i Hafod y Maidd.

*cost o £3.50 yn gysylltiedig â phob diwrnod y mae'r cyfnod rhwng lloeaau yn mynd tu hwnt i 365 diwrnod.



Holi ac ateb gydag Iwan

Beth yw'r brif fantais o fod yn Fferm Arddangos Cyswllt Ffermio?

"Rwyf wedi gwerthfawrogi mewnbwn yr arbenigwyr ar y cyd yn ystod y cyfarfodydd Grŵp Rheoli. Roedd hyn yn cynnwys fy milfeddyg, yr arbenigwr glaswelltir ac arbenigwr bíff a defaid oedd weithiau yn ymuno â ni trwy Skype."

O'r holl gyngor, beth sydd wedi bod fwyaf manteisiol a/neu sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar eich busnes?

"Trwy wasanaeth Cynllun Fferm Gyfan Cyswllt Ffermio, mae gennym yn awr gynllun busnes sydd wedi ein helpu i ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau i ddatblygu dros y pump i ddeng mlynedd nesaf."

Beth ydych chi wedi rhoi cynnig arno na fyddech chi fel arall?

"Mae profi gwaed y fuches i gyd wedi bod yn ddefnyddiol iawn, gan roi darlun manwl gywir o iechyd y fuches. Mae prynu tafol i bwysu gwartheg o'r newydd wedi bod yn werthfawr iawn."


Pa newidiadau ydych chi wedi eu gweithredu y byddwch yn eu cadw?

"Mae'r cyngor arbenigol yr ydym wedi ei gael fel ffermwyr arddangos wedi rhoi'r hyder i ni barhau â'n cynlluniau i symud i wahanol fridiau."

Safbwyntiau Iwan

1

Dadansoddwch a defnyddiwch yr holl ddata a gofnodwyd i gael perfformiad cywir a rheolaeth fferm llwyddiannus.



2

Manteisiwch ar bob cyfle, a gwranddo ar gyngor arbenigwyr.



3

Cymharwch systemau ffermio yn deg a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Peidiwch a bod ofn newid os ydy o fudd i'ch system ffermio.



Abbey Farm

Jonathan, Arran, Billy a John Davies

Llangollen, Sir Ddinbych, LL20 8DD

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos ers Medi 2011
- 500 erw yn berchen iddynt
- 420 erw ar rent
- Amrywio o 450 i 1,400 troedfedd

MANYLION Y GWARTHEG

- 100 o wartheg magu

MANYLION Y DEFAID

- 2,000 o famogiaid – mamogiaid mynydd Cymreig, croes Llŷn, Miwl

MANYLION ERAILL

- 50 erw o farlys wedi ei grimpio neu wenith
- 15-20 erw o gnydau gwraidd
- Glastir Sylfaenol ac Uwch

AMCANION ALLWEDDOL

1. Gwella iechyd y ddiadell ddefaid gan ganolbwyntio ar gloffni i leihau ei amllder
2. Gwella effeithlonrwydd y ddiadell trwy ganolbwyntio ar berfformiad y ddau groesfrid Cymreig
3. Monitro a rheoli sgôr cyflwr y famog

Prosiectau allweddol

1. CYNLLUN CLOFFNI


Bu'r cynllun cloffni a ddatblygwyd yn Abbey yn help i ddyodi meysydd allweddol i wneud newidiadau sylweddol i berfformiad y ddiadell. Y lefel darged o gloffni i'w

gyflawni cyn pen tair blynedd yw bod yn llai na 1%. Mae Abbey wedi lleihau cloffni yn sylweddol yn y 12 mis cyntaf fel y gwelir yn Ffigwr 1.

Ffigwr 1. Newidiadau yn lefelau cloffni yn y ddiadell mewn 12 mis

| | 2013 | 2014 |
|--|-----------------------------------|--|
| Cloffni Defaid | 7 - 10% Ar draws y diadelloedd | 1 - 2% mamogiaid Cymreig 3 - 5% defaid Miwl |
| Graddfa'r cloffni (Graddfa 0 ysgafn -3 difrifol) | 2 - 3 | 1 - 2 |
| Costau cloffni oherwydd clwy'r traed (gan ddefnyddio Cyfrifiannell Costau Clwy'r Traed Prifysgol Reading) | £11.80 y famog | £3.20 y famog |
| Arbedion a amcangyfrifir yn Abbey mewn 12 mis - £13,760 | | |

Ffigwr 2. Cynllun Pum Pwynt yn Abbey



2. CYMHARU NODWEDDION Y MAMOGIAID AR GYFER Y FFERM

Pwyswyd ychydig mwy na 200 o hesbinod o ddau fath croesfrid a rhoddwyd sgôr cyflwr iddynt cyn eu troi at yr hwrdd yn Hydref 2012. Rhoddwyd sgôr cyflwr i'r mamogiaid wedyn ar ôl sganio a chafwyd y canlyniadau sganio unigol. Roedd y cyfan yn hesbinod ac yn mynd at yr hwrdd am y tro cyntaf.

Trowyd at yr hwrdd mewn un grŵp o ganol Hydref ymlaen.

Cyfeirir at y ddau fath o famogiaid croesfrid fel croesfrid A (miwl) a chroesfrid B (croesiad Llŷn a Mynydd Cymreig). Roedd y ddau groesfrid wedi eu magu o famogiaid Mynydd o Abbey Farm.

Ffigwr 3. Perfformiad croesfrid A a chroesfrid B

| | Croesfrid A | Croesfrid B |
|---------------------------------------|-------------|-------------|
| Cyflwr y famog* wrth fynd at yr hwrdd | 2.25 | 2.65 |
| Pwysau'r famog | 48.6kg | 42.2kg |
| Canlyniadau sganio | 130% | 105% |

* Sgôr cyflwr 1 – 5 (1 yn denau iawn, 5 yn dew iawn)

Yn dilyn y treial roedd Jonathan yn gallu gwneud penderfyniad rheoli ar sail ffeithiau, a phenderfynodd gynyddu Croesfrid A. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd casglu

a dadansoddi gwybodaeth ar berfformiad diadell er mwyn gwneud penderfyniadau rheoli gwerthfawr.

Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

1. Lleihau cloffni i 1% trwy'r ddiadell
2. Targed y sgôr cyflwr ar gyfer y mamogiaid wrth fynd at yr hwrdd 3 i 3.5

Holi ac ateb gyda Jonathan

Beth yw'r brif fantais o fod yn Fferm Arddangos Cyswllt Ffermio?

"Cymryd mantais lawn o'r dyfnder o gyngor a'r arbenigwyr sydd wedi ymweld â'r fferm dros y tair blynedd diwethaf."

O'r holl gyngor, beth sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar eich busnes?

"Rydym yn teimlo bod y cynllun cloffni wedi cael effaith anferth ar y fferm, mae'r gostyngiad mewn achosion yn weladwy iawn ac mae'r arbediad mewn costau hefyd yn dod yn amlwg."

Beth yw eich cynlluniau at y dyfodol?

"Rwyf am wneud gwell defnydd o'r tir uchel sydd gennym ar y fferm, mae'n adnodd anferth i'w gael ac rwyf am wneud y mwyaf ohono."

Pa newidiadau ydych chi wedi eu gweithredu fydd yn parhau i fod yn rhan o'ch system ffermio yn y dyfodol?

"Bydd y cynllun cloffni yn awr yn rhan ganolog o'r system reoli defaid. Byddwn hefyd yn parhau i gyflogi maethegydd yn flynyddol i sicrhau bod dognau'r mamogiaid ar adeg ŵyna yn hollol gywir."



Safbwyntiau Jonathan



Defnyddiwch y data yr ydych yn ei gasglu i ddadansoddi perfformiad y fferm a gwneud newidiadau os oes angen.



Roedd defnyddio maethegydd i greu dogn yn fodd o helpu i leihau biliau porthiant, gan gyrraedd y sgoriau cyflwr a dargedwyd ar gyfer pob grŵp.



Mae trafod problemau gydag eraill wedi arwain at ddod o hyd i atebion.



Mae'r rheolaeth ar laswelltir wedi gwella ers dod yn fferm arddangos, deall pa hadau i'w defnyddio, pryd a ble.

Y Gyrrn

Huw a Linda Roberts a'r teulu

Llanuwchllyn, Y Bala, LL23 7DE

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos ers Ionawr 2012
- 340 erw yn berchen iddynt
- Amrywio o 700 i 1,675 troedfedd

MANYLION Y GWARTHEG

- 45 o Wartheg Duon Cymreig

MANYLION Y DEFAID

- 660 o famogiaid magu Mynydd Cymreig
- 60 o famogiaid croes Cheviot
- 220 o ŵyn benyw yn cael eu cadw yn flynyddol

MANYLION ERAILL

- Glastir Sylfaenol

AMCANION ALLWEDDOL

1. Gwneud glaswelltir yr ucheldir mor effeithlon â phosibl
2. Gostwng costau mewnbwn i wella'r elw
3. Tynhau'r patrymau lloea a'r raddfa gyfloi
4. Gwella canrannau sganio ar y fferm
5. Arddangos technolegau newydd a mathau newydd o hadau glaswellt tymor canolig a hir

Prosiectau allweddol

1. PROSIECT GWRTAITH

Nod y prosiect oedd sicrhau eu bod yn cael yr elw gorau posibl ar fuddsoddiad wrth chwalo gwrtaith. Gall newidiadau bach wneud gwahaniaeth sylweddol i'r mewnbwn ariannol ac allbwn y fferm, a gall deall manteision cost chwalo gwrtaith fod yn allweddol.

Dewiswyd gwndwn dwy flwydd oed ac fe rannwyd y cae yn dri phlot gwahanol i gael triniaethau gwahanol o ran gwrtaith (gweler Ffigwr 1).

Ffigwr 1. Gwndwn dwy flwydd oed wedi ei rannu yn dair triniaeth o ran tyfiant glaswellt

| | Arferion arferol 100kg/erw (22:4:14) canol Mai | N Ychwanegol 150kg/erw (22:4:14) canol Mai | Chwalo ar ddau dro 50kg/erw CAN diwedd Ebrill, 100kg/erw 22:4:14 canol Mai |
|--|---|---|--|
| Tyfiant glaswellt - o 30 Ebrill i 10 Mehefin (kg DM/ha) | 2,780 | 3,530 | 4,357 |
| Ymateb i N (kg glaswellt/kgN) | 50 | 43 | 48 |
| Cost y gwrtaith yr hectar | £83 | £125 | £128 |
| Gwerth y glaswellt ychwanegol a dyfwyd | - | £147 | £309 |

Mewn tywydd da i dyfu glaswellt yn 2014, ac ar wndwn ifanc sy'n ymateb yn dda, roedd kg ychwanegol o wrtaith yn cynyddu'r cynhyrchiant o 25% ac roedd y gost ychwanegol yn creu elw o 350% ar y buddsoddiad.

Fe wnaeth chwalo nitrogen ar ffurf nitrad calciwm amoniwm ddwywaith gynyddu cynhyrchiant yn uwch na'r arfer arferol o bron i 56%.

2. DADANSODDI DIFFYG ELFENNAU HYBRIN YN Y DDIADELL

Trwy brofi gwaed a phorthiant, gall ffermwyr bennu beth yw'r diffygion o ran elfennau hybrin ar eu ffermydd er mwyn rhoi ategolion i anifeiliaid i ddiwallu eu anghenion. Profwyd gwaed chwech o famogiaid a dadansoddodd y milfeddyg lleol eu gwaed.

Nid oedd gan Y Gyrrn unrhyw broblemau penodol o ran diffygion elfennau hybrin. Ond, derbyniodd y ddiadell croes Cheviot folws elfennau hybrin ac fe wnaeth y gyfradd o ddefaid gwag ostwng o 6% i lai na 3%.



Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

1. Y pwysau targed ar gyfer yr ŵyn a werthir yw 32kg o bwysau byw. Eleni anfonwyd yr ŵyn cyntaf yn 9 wythnos oed ar 29 Mai yn pwysu 32kg.
2. Mae'r fuches o wartheg duon Cymreig i gyd yn cael tarw potel, ar hyn o bryd mae 88% o'r buchod yn lloea o fewn y bwlch 365 diwrnod ond y nod yw codi hyn i 95% trwy waredu stoc a monitro.
3. Yn 2011, sganiwyd 712 o famogiaid ar 160%. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae niferoedd y mamogiaid wedi cynyddu i 772 ond mae'r canran wrth sganio wedi gostwng i 155%, sydd wedi ysgogi gostyngiad yn nifer y mamogiaid er mwyn adfer canran sganio well a chael llai o famogiaid i'w porthi.

Holi ac ateb gyda Huw

A oes unrhyw beth yr ydych wedi rhoi cynnig arno na fydddech yn ei wneud eto neu unrhyw wersi a ddysgwyd?

"Y profi pridd a wnaed ar y fferm, y prosiect ar wrthedd i ddos llyngyr a dysgu o'r wybodaeth arbenigol a'r cyfarwyddyd gan gynghorwyr arbenigol a ymwelodd â'r fferm ar bynciau fel awyru ac iechyd y fuches."

O'r holl gyngor, beth sydd wedi bod fwyaf manteisiol a/neu sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar eich busnes?

"Y cyngor a gefais ar iechyd y fuches, tynhau'r patrwm lloea a bod yn fwy didrugaredd gyda'r buchod sydd ddim yn perfformio fel y dylent."

Beth yw eich cynlluniau at y dyfodol?

"Dal i ffermio yn gynaliadwy, cadw'r busnes yn hyfyw a pharatoi'r busnes ar gyfer y gostyngiad tebygol yn y Taliad Sengl."

Pa newidiadau ydych chi wedi eu gweithredu fydd yn parhau i fod yn rhan o'ch system ffermio yn y dyfodol?

"Dewis y dosau, teirw a gwrtaith cywir – yn enwedig cyfraddau chwalu."

Safbwyntiau Huw

1

Mae profi'r pridd yn agwedd bwysig iawn o reoli glaswellt, fyddwn ni byth yn gwybod beth yw statws y pridd nes byddwn yn ei brofi.



2

Perthynas dda gyda'ch milfeddyg – trafod materion ac mae llunio eich cynllun iechyd anifeiliaid yn adnodd defnyddiol iawn i ffermwyr.



3

Mae rhoi cynnig ar fathau newydd o hadau glaswellt wedi fy nysgu beth sy'n gweithio orau ar fy nhir ac mae parhau i wneud hynny yn allweddol i gynnal glaswellt o'r ansawdd gorau i gynhyrchu da byw.



4

Bydd canolbwyntio ar agwedd o'ch busnes sy'n tanberfformio yn gwella proffidoldeb cyffredinol eich fferm, ac mae cael y cyngor arbenigol cywir bob amser yn werth chweil.



Trewylan Ganol

Edward a Helen Owen

Llansantffraid, SY22 6TJ

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos ers Chwefror 2012
- 260 erw yn berchen iddynt
- 78 erw ar rent
- Amrywio o 102 i 151 troedfedd

MANYLION Y GWARTHEG

- 140 o fuchod Holstein
- 100 o deirw

MANYLION Y DEFAID

- 90 o ddefaid Miwl Gogledd Lloegr

MANYLION ERAILL

- 85 erw o dir âr / cnydau porthiant
- Glastir Sylfaenol

AMCANION ALLWEDDOL

1. Cynyddu proffidioldeb y busnes a gwella'r rheolaeth ar ffrwythlondeb
2. Cynyddu'r nifer o fuchod i lefel lle mae'r fferm yn gweithredu ar yr effeithlonrwydd eithaf
3. Gwella dulliau magu lloeau
4. Gostwng oedran yr heffrod wrth fynd at y tarw


Prosiectau allweddol

1. PA MOR GYFFORDDUS YW'R GWARTHEG

Gydag arweiniad gan arbenigwyr Cyswllt Ffermio, dyluniwyd adeilad newydd i gynnig yr amgylchedd gorau posibl i'r buchod. Gosodwyd dau fath o giwbiclau yn yr adeilad, ciwbicel arferol a chiwbicel plastig JVC.

Mae'r achosion o fastitis wedi gostwng o 13% dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r sied newydd gydag ochr agored a tho uwch, wedi gwneud gwahaniaeth mawr i dymheredd y sied, llif yr aer ac ansawdd yr aer gan arwain at sied oerach trwy gydol y flwyddyn. Roedd mastitis yn costio tua £115 yr achos i'r fferm (mae hyn yn cynnwys costau trin a cholli'r cynhyrchiant llaeth).

Mae'r adeilad newydd yn Trewylan Ganol wedi helpu i wella lles y buchod, pa mor gyfforddus ydynt a'r amodau gwaith ac mae'r fuches wedi cynyddu perfformiad yn sylweddol. Yn awr mae'r cynnyrch llaeth ar gyfartaledd yn 1,171 litr y fuwch yn uwch nag yr oedd ddwy flynedd yn ôl - cynnydd o 14.7%.



2. RHEOLI HEFFROD

Derbyniodd Edward gyngor arbenigol ar gael yr heffrod i gyrraedd y pwysau mynd at y tarw o 380kg (60% o'u pwysau llawn dwf) yn gynharach ac yn y pen draw i loea yn gynt yn hytrach na'r oedran lloea traddodiadol o 31 mis yn Trewylan. Bydd hyn yn ei dro yn lleihau costau magu o tua £400 yr heffer a bydd hefyd yn cynhyrchu incwm o tua 4,000 litr o laeth yn yr amser hwnnw. Yn ychwanegol bydd yr heffrod bedair gwaith yn llai tebygol o fod angen help wrth loea na heffrod hyn a ddwywaith mor debygol o fod

yn dal yn fyw yn bum mlwydd oed. Cadwyd golwg ar yr heffrod dros fisoedd yr haf ac fe wnaethant lwyddo i gynyddu pwysau yn ddyddiol o 0.75 kg ar borfa gymharol wael.

Cyrhaeddodd yr heffrod y pwysau targed o 380kg erbyn yr oedden yn 18 mis oed ac mae'r cyfnod troi at y tarw wedi ei dynhau yn awr. Canolbwyntir ar welliannau eraill yn y flwyddyn sydd i ddod i barhau i gyrraedd y pwysau troi at y tarw yn gynharach.

3. MAGU LLOEAU

Cofnodwyd y dulliau magu lloeau i gynnwys ansawdd y colostrwm a'r amser y rhoddwyd 2.5 litr o golostrwm i'r llo ar ôl ei eni. Y casgliad cyffredinol oedd bod ansawdd y colostrwm yn amrywiol. Cynghorwyd y dylai pob llo gael 5 litr o golostrwm o ansawdd da cyn pen 24 awr o'u geni ac fe gawsant brawf gwaed cyn bod yn saith niwrnod oed i sicrhau eu bod wedi cael digon o golostrwm. Gwelwyd gwahaniaeth

sylweddol o ran cryfder ac imiwnedd y lloeau ers i'r polisi gael ei weithredu.

Gwelwyd effaith fwyaf y gwaith hwn yn lefel yr ysgôth sy'n digwydd. O ganlyniad i'r holl weithdrefnau newydd a weithredwyd ar ôl lloea gwelwyd gostyngiad o 25% yn yr achosion o'r ysgôth.



Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

1. Targeddu pwysau troi at y tarw o 380kg tua 15 mis oed
2. Rhoi 5 litr o golostrwm o safon uchel (o leiaf 50 mg/ml) i bob llo yn y 24 awr cyntaf ar ôl ei eni
3. Mae mynegai lloea blynyddol y fuches wedi gostwng o 14 diwrnod dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Gan dybio bod arbediad o £5.60 y dydd o ostyngiad i bob buwch, mae hyn yn welliant o £10,505 i'r fuches.
4. Mae'r cyfraddau gwaredu stoc hefyd wedi gostwng o 12% oherwydd bod iechyd cyffredinol y fuches yn well, gan gynnwys cloffni a ffrwythlondeb.

Holi ac ateb gydag Edward

O'r holl gyngor, beth sydd wedi bod fwyaf manteisiol a/neu sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar eich busnes?

"Derbyn cyngor arbenigol ar ddyluniad yr adeilad ar gyfer y sied 140 ciwbicl. Gwnaed gwelliannau i amgylchedd y buchod ac mae'r rhain eisoes yn cael effaith fanteisiol ar y busnes."

Beth yw eich cynlluniau at y dyfodol?

"Dal i geisio gwella pob agwedd ar y busnes a sicrhau ein bod yn cadw'n gyfredol ac yn addasu yn ôl y gofyn. Rydym yn bwriadu cynyddu'r nifer o wartheg ac yn gobeithio buddsoddi mewn godro robotig os bydd yn hyfyw."

Safbwyntiau Edward

1

Fel ffermwyr mae'n rhaid i ni fod yn barod i newid yn ein busnesau – peidio â bod ofn gwneud newidiadau i gynyddu proffidoldeb y busnes.



2

Mae dyluniad adeiladau da wedi cael effaith bositif ar berfformiad yr anifeiliaid.



3

Asesu a monitro ansawdd colostrwm.



Dol Llys

Andrew a Janet Evans a'r teulu

Llanidloes, SY18 6JA

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos ers Rhagfyr 2013
- 500 erw yn berchen iddynt
- 50 erw ar rent
- Amrywio o 550 i 1,200 troedfedd

MANYLION Y GWARTHEG

- 20 o wartheg Swydd Henffordd pedigri
- 50 o wartheg magu masnachol (croes Blue a Limousin)

MANYLION Y DEFAID

- 800 o famogiaid masnachol
- 70 o famogiaid Suffolk pedigri
- 170 o ŵyn benyw
- 30 o ŵyn benyw Suffolk pedigri

MANYLION ERAILL

- 11 acer o ryg
- 5 acer o faip
- Glastir Sylfaenol

AMCANION ALLWEDDOL

1. Rheoli costau trwy fod yn fwy hunangynhaliol – a chynhyrchu mwy o gnydau porthiant gartref
2. Pennu sut y gallwn ddefnyddio gwrrtaith yn fwy effeithlon a defnyddio'r wybodaeth hon i gael y tyfiant mwyaf posibl yn y glaswellt ar y costau gorau posibl
3. Gwella proffidoldeb y fferm i'r genhedlaeth nesaf

Prosiectau allweddol

1. GWNEUD Y DEFNYDD GORAU O WRTAITH

Er mwyn cynhyrchu cymaint o borthiant â phosibl ar y fferm, mae'n hanfodol gwneud y defnydd gorau o wrtaith yn gynnar yn y gwanwyn a dynodi'r ymateb i nitrogen.

Rhannwyd un cae yn 3 a defnyddiwyd cyfraddau a chynnyrch gwahanol i ddangos sut y mae ansawdd y gwndwn, cyflwr y pridd a'r cyflenwad nitrogen yn dylanwadu ar dyfiant y glaswellt.

Ffigwr 1. Data tyfiant glaswellt

| | Mesur y tyfiant glaswellt 20 Ebrill - 10 Gorffennaf 2014 | Ansawdd y glaswellt |
|---|---|---------------------|
| Dim Nitrogen | 3.6 t DM / ha | 15% Rhygwelt |
| 100kg/ha o 16.16.16 wedi ei chwalu Mai 8 | 4.9 t DM / ha | 60% Rhygwelt |
| 150kg/ha o 10.10.10 (rhyddhau'n araf) wedi ei chwalu Mai 30 | 4.5 t DM / ha | 50% Rhygwelt |

2. CNYDAU I BESGI WŶYN

Mae dynodi'r dewisiadau cnydau sydd fwyaf addas i wella perfformiad yr ŵyn yn hanfodol i sicrhau'r elw mwyaf. Bydd y cnydau presennol yn cael eu prasio a'u cymharu trwy'r flwyddyn.

Mae costau mewnbwn manwl yn cael eu cofnodi gyda dyddiadur cnwd ar gyfer pob gweithred reoli, ynghyd â chynnyrch y cnwd a pherfformiad yr anifeiliaid. Bydd y canlyniadau llawn ar gael wedi i'r prosiect ddod i ben.

3. PROFI GWAED I GAEL ACHREDIAD AFIECHYD

Gweithredwyd Cynllun Iechyd Anifeiliaid ar gyfer y buchesi Henffordd a masnachol a phrofwyd gwaed y gwartheg am BVD, leptospirosis ac afiechyd Johne. Y nod oedd profi gwaed y buchesi i gael eu statws iechyd presennol a gweithio tuag at gael achrediad afiechyd dan Gynllun Gwartheg HiHealth.

brofwyd yr holl wartheg dan ddwy flwydd oed am afiechyd Johne. Gwelwyd bod y fuches wedi profi yn negyddol am wrthgyrff BVD, leptospirosis ac afiechyd Johne.

Llwyddodd y fuches Henffordd y prawf cymhwyso cyntaf i gael achrediad ac yn y fuches fasnachol, sgriniwyd gwartheg cynrychioliadol am BVD a leptospirosis ac fe

Mae hwn yn fan cychwyn ar gyfer cadw cofnodion yn y dyfodol a bydd gwerthusiadau/trafodaethau cyson ar berfformiad y fuches yn dynodi a thargedu meysydd i'w gwella ac yn helpu i ddatblygu proffidoldeb y fferm.

Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

1. Wrth chwalu'r cyfraddau cywir o wrtaith ar gost o £90 / ha am y gwrtaith - tyfwyd 1.3t o laswellt ychwanegol oedd yn werth £256 (11.5 ME a 20% CP).
2. O ganlyniad, bydd Dol Llys yn medru cadw 3 mamog a gefeilliaid yn ychwanegol ar bob erw

Holi ac ateb gydag Andrew

Beth yw'r brif fantais o fod yn Fferm Arddangos Cyswllt Ffermio?

"Y cyngor rheoli glaswelltir a roddwyd i'r fferm, ynghyd â'r syniad o brisio'r mewnbwn."

A oes unrhyw beth yr ydych wedi rhoi cynnig arno na fydddech yn ei wneud eto neu unrhyw wersi a ddysgwyd?

"Rwyf wedi dysgu peidio â chwalu gwrtaith ar dir gyda pH isel, mae calchu'r tir o fwy o werth am arian."

Beth ydych chi wedi rhoi cynnig arno na fydddech chi fel arall?

"Roeddem yn arfer tyfu cnydau gwraidd, ond fe wnaeth ein cynghorydd ein cynghori i hau gwndwn glaswellt tymor byr. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni gael porfa o ansawdd uchel i'r mamogiaid yn y gwanwyn."

Pa newidiadau ydych chi wedi eu gweithredu fydd yn parhau i fod yn rhan o'ch system ffermio yn y dyfodol?

"Edrych ar ddefnyddio gwndwn tymor byr i wella'r allbwn glaswellt i bob hectar. Profi'r pridd yn gyson. Prisio pob mewnbwn i'r cnydau i bennu eu hyfywedd/dichonolrwydd."



Safbwyntiau Andrew

1. Bod yn fwy agored i syniadau newydd a gwahanol. Cael yr hyder i wrando ar y cyngor sy'n cael ei roi.



2. Buddsoddi mewn rheoli glaswelltir yw'r dyfodol i'r fferm allu gwrthsefyll yr amrywiadau mawr yng nghostau porthiant sy'n cael ei brynu.



Cwmwhitton

Colin, Phyllis a Gareth Pugh

Whitton, Trefyclo, Powys, LD7 1NL

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos ers Awst 2012
- 530 erw yn berchen iddynt
- 500 erw ar rent
- Amrywio o 650 i 1,200 troedfedd

MANYLION Y GWARTEG

- 130 o wartheg magu croes Saler

MANYLION Y DEFAID

- 950 o famogiaid magu miwl croes Texel

MANYLION ERAILL

- 65-70 erw o datws had, yn cael eu graddio a'u gwerthu rhwng Ionawr ac Ebrill
- 21 erw o geirch gwanwyn
- 100 erw o farlys gwanwyn
- 27 erw o silwair cnwd cyfan gyda meillion coch wedi ei hau dano
- 14 erw o fetys porthiant
- 6 erw o swêj
- 14 erw o india corn

AMCANION ALLWEDDOL

1. Bod yn hunangynhaliol yw un o amcanion allweddol Gareth. Ond, os gallwch brynu i mewn yn rhatach nag y gallwch ei dyfu yna rhaid i chi bwysu a mesur y dewisiadau - o ran ansawdd, cyfleustra ac yn ariannol
2. Cael yr allbwn mwyaf posibl – magu cymaint o stoc ag sy'n bosibl o'r stoc magu
3. Mesur cyfraddau tyfu i sicrhau bod y dognau yn gywir. Rhaid i chi wybod sut yr ydych yn cyflawni er mwyn gwneud gwelliannau

Prosiectau allweddol

1. PROSIECT PORTHANT TEIRW EIDION

Mae hwn yn dreial sy'n parhau ac yn cymharu perfformiad dau grŵp o 11 o deirw wedi eu porthi ar ddogneau gwahanol. Y nod yw cymharu'r cynnydd dyddiol mewn pwysau a'r cynnwys sych sy'n cael ei fwyta ar ddiet o gnydau wedi eu rhoio'n sych ac wedi eu crimpio. Dengys adroddiad dros dro'r prosiect hyd yn hyn bod y teirw ar y dogn o rawn wedi

ei grimpio yn dangos cynnydd o 2% o ran cynnydd dyddiol mewn pwysau a chynnydd o £34.66 y pen yn yr elw gros dros y porthiant mewn cymhariaeth â gwartheg wedi eu porthi ar y grawn wedi ei rowlio'n sych. Dangosodd y teirw a borthwyd ar rawn wedi ei grimpio gynnydd o 2.5% hefyd ym mhwsau'r carcass o 1.5% yn llai o ddyddiau o oedran.



2. EFFEITHLONRWYDD Y FUCHES FAGU

Dyma amcanion y prosiect hwn:

- sefydlu cymhareb effeithlonrwydd buwch i lo a tharw stoc yn y fuches fagu
- asesu pwysau 200 diwrnod a phwysau'r lloeau wrth eu diddyfnu fel canran o bwysau'r fuch: effeithlonrwydd y fuch
- dadansoddi effaith effeithlonrwydd y fuch a'r tarw a'r berthynas rhwng perfformiad y teirw eidion â maint y fuch a chynhyrchu lloeau ynghyd ag EBV y tarw stoc

Mae'r gwartheg i gyd yn cael eu pwyso bob tro y byddant yn mynd i'r crysh a bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn hysbys yn gynnar yn 2015.

Prosiectau allweddol

3. EFFEITHLONRWYDD DEFAID

Mae mamogiaid Aberdale sy'n cynnwys y genyn Inverdale (am y nifer uchel o epil) yn medru cynhyrchu cynnydd yn y canlyniadau sganio heb angen i'r mamogiaid gael eu troi i dir gwell yn yr hydref. Dros y tair blynedd diwethaf mae Cwmwhitton wedi defnyddio'r eneteg yma i helpu i wella nifer yr ŵyn a gynhyrchir o'r ddiadell.

Mae cyfrifo'r mynegai ffrwythlondeb yn arwydd defnyddiol o effeithlonrwydd y mamogiaid ar bwysau gwahanol. Mae'r ffigwr yn cael ei gyfrifo trwy rannu cyfartaledd pwysau'r mamogiaid wrth eu troi at yr hwrdd gyda chanran sganio'r grŵp.

Mae'r ystod nodweddiadol o ganlyniadau rhwng 2 a 3 gyda 2 yn dynodi lefel is o ran nifer yr epil i'r pwysau o famog a 3 yn dynodi lefel uchel. Mae hyn yn ddefnyddiol i ddynodi pan fydd mamogiaid trymach ddim yn arwain at ddigon yn y nifer o ŵyn.

Ffigwr 1. Mynegai ffrwythlondeb mamogiaid Aberdale a rhai heb fod yn Aberdale

| Math o frid | Pwysau nodweddiadol wrth fynd at yr hwrdd | Canlyniadau sganio nodweddiadol (%) | Mynegai Ffrwythlondeb |
|---------------------------------|---|-------------------------------------|-----------------------|
| Aberdale | 66kg | 186 | 2.82 |
| Heb fod yn Aberdale (3/4 Texel) | 66kg | 158 | 2.39 |

Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

1. Teirw eidion wedi bod yn pesgi yn 15 mis ac yn pwyso mwy (tua 700kg).
2. Teirw eidion wedi eu porthi ar gnydau wedi eu crimpio wedi cynyddu'r elw gros o £35 y pen mewn cymhariaeth a gwartheg wedi eu porthi ar gnydau grawn wedi eu rholio'n sych.
3. Canlyniadau sganio wedi cynyddu o tua 30%, a allai arwain at 26 o ŵyn eraill yn cael eu magu a chynnydd posibl mewn incwm o £1,950 i bob 100 o famogiaid yn y ddiadell.



Holi ac ateb gyda Gareth

O'r holl gyngor, beth sydd wedi bod fwyaf manteisiol a/neu sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar eich busnes?

"Mae'r cyngor effeithlonrwydd eidion a'r cyngor ar borthi wedi gwneud gwahaniaeth amlwg i'r busnes. Mae ein teirw eidion yn awr yn pesgi fis yn gynharach. Maen nhw hefyd yn drymach ac mae'r pwysau ychwanegol hefyd yn help gan ein bod wedi gweld gostyngiad mewn prisiau yn ddiweddar."

Pa newidiadau ydych chi wedi eu gweithredu fydd yn parhau i fod yn rhan o'ch system ffermio yn y dyfodol?

"Bydd monitro perfformiad y fuches fagu yn ofalus yn parhau yn ddull rheoli pwysig. Fy nharged yw gweld y gwartheg yn drymach eto wrth eu diddyfnu – credaf bod hyn yn allweddol i gynnal perfformiad da. Mae cyflwyno geneteg Aberdale wedi cynyddu'r ganran wrth sganio ac felly byddaf yn parhau i ddefnyddio geneteg Aberdale yn y ddiadell."

Safbwyntiau Gareth

- 1 Efallai eich bod wedi gwneud rhywbeth mewn ffordd benodol am flynyddol ond nid yw hynny'n golygu na ddylech ei newid a rhoi cynnig ar rywbeth newydd – fe all fod yn well i chi.
- 2 Cadwch olwg ar gyfraddau tyfu yn gyson i sicrhau bod y dognau yn gywir a bod perfformiad yr anifeiliaid yn cyrraedd y targed.
- 3 Trefnwch eich cynlluniau cynyddio i weddu i'r galw gan y da byw trwy gydol y flwyddyn.

Blaenbwch

Rob a Tracy Powell

Blaenbwch, Llanfair ym Muallt, LD2 3HU

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos ers Rhagfyr 2013
- Fferm ucheldir 370 erw a fferm 320 erw Rhosferig gyda thrwydded bori ar Fynydd Epynt
- Amrywio o 400 i 1,350 troedfedd

MANYLION Y GWARHEG

- 200-250 o wartheg o darw Du Cymreig

MANYLION Y DEFAID

- 1,800 o famogiaid (o fathau gwahanol) wedi eu rhannu yn dair diadell

MANYLION ERAILL

- 95 erw o dir âr/cnydau porthiant cymysg
- Glastir Sylfaenol

AMCANION ALLWEDDOL


1. Treialu cnydau/porthiant gwahanol i leihau dibyniaeth ar ddwysfwyd wedi ei brynu
2. Rheoli costau – monitro a gwerthuso costau sy'n gysylltiedig â phob menter i weld lle gellid gwneud arbediadau posibl
3. Gwella priddoedd a gwndwn glaswellt i gynhyrchu stoc a chael y perfformiad gorau
4. Defnyddio EID i weld pa fanteision y mae'n gallu ei gynnig
5. Symud i system pori cylchdro ar gyfran o'r tir i werthuso'r potensial

Prosiectau allweddol

1. PORTHANT MAGLYS RHUDDLAS A MEILLION COCH

Cymharwyd potensial silwair maglys rhuddlas a meillion coch/glaswellt cymysg y llynedd, wedi ei drin a heb ei drin yn Rhosferig. Porthwyd silwair i bedwar grŵp o wartheg ac roedd y rhai a borthwyd ar silwair meillion coch a glaswellt yn pwysu mwy na 10kg yn fwy na'r rhai a borthwyd ar faglys rhuddlas ar ddiwedd y prosiect. Ni wnaeth trin y silwair maglys rhuddlas unrhyw wahaniaeth i'r cynnydd dyddiol mewn pwysau byw. Roedd y gwahaniaeth mewn perfformiad oherwydd bod y protein mewn maglys rhuddlas yn fwy diraddadwy, ac roedd y cnwd yn doriad hwyr gyda chynnwys sych yn isel ar 24%, a allai fod wedi cyfyngu ar faint oedd yn cael ei fwyta. Ond, fe gofnodwyd gwahaniaethau ym mherfformiad y gwartheg a borthwyd ar silwair meillion coch/glaswellt (gweler Ffigwr 1).

Ffigwr 1. Perfformiad gwartheg wedi eu porthi ar silwair meillion coch



2. DEFNYDDIO EID ER EIN BUDD NI

Mae EID wedi ei gwneud yn llawer haws i fonitro perfformiad stoc, ac o ganlyniad mae Rob yn pwysu yn amlach nag erioed. Y llynedd roedd y gwartheg yn dangos cyfartaledd o 1.4kg o gynydd yn eu pwysau byw y dydd dros 138 diwrnod o bori yn yr haf o fis Mai hyd fis Medi, gan gynhyrchu 971kg/ha. Eu nod yn awr yw curo'r perfformiad hwn y flwyddyn nesaf a gwella'r elw am bob kg.

3. PORI PADOGAU A MESUR GLASWELLT

Ar ôl mesur tyfiant y glaswellt daeth yn amlwg bod amrywiaeth mawr ar draws y fferm o gae i gae. Y nod yw cael y cyfartaledd yn nes at y padog gorau, er mwyn dyblu'r erwau ar gyfer magu stoc.

Holi ac ateb gyda Rob

Beth ydych chi wedi ei ddysgu o ganlyniad i'r prosiectau?

“Mae'r prosiect pori wedi gadael i mi gynhyrchu mwy o laswellt o'r un tir. Mae EID a'r prosiect porthiant wedi fy helpu i fonitro yn union faint mae fy stoc yn ei fwyta, cyfrifo'r costau ac asesu sut mae'r anifeiliaid yn perfformio. Mae holl brosiectau Cyswllt Ffermio yn fy helpu i fonitro a gwerthuso costau sy'n allweddol.”

O'r holl gyngor, beth sydd wedi bod fwyaf manteisiol i'ch busnes?

“Mae pori cylchdro wedi dangos sut i reoli a defnyddio glaswellt yn fwy effeithiol. Rwyf yn awr yn mesur glaswellt gyda mesurydd plât ac yn rheoli fy nglaswelltir yn llawer mwy effeithlon.”

Beth yw eich cynlluniau at y dyfodol?

“Mae canlyniadau pori cylchdro wedi bod mor dda; rwyf yn bwriadu cynyddu niferoedd fy stoc i 400 o famogiaid ychwanegol erbyn yr hydref. Bydd mesur perfformiad trwy EID yn ein galluogi i gael gwared ar y rhai sy'n perfformio'n wael a chadw ŵyn benyw gan y mamogiaid gwll i gynyddu cynhyrchiant y ddiadell.”

Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

1. YSTADEGAU TYFIANT GLASWELLT

| | Tunnell o Gynnwys Sych DM/Ha | Cyfartaledd y Tyfiant Dyddiol kg/DM | Cyfateb i fynau mawr crwn yr ha (yn fras) |
|----------------------------------|------------------------------|-------------------------------------|---|
| Cyfartaledd y fferm | 6.9 | 25 | 34 |
| Cyfartaledd tir wedi ei ail hadu | 12.5 | 45 | 62 |
| Padog gorau | 16 | 58 | 80 |
| Padog gwaethaf | 3.5 | 13 | 17 |

2. GWARTHEG

- 29 o wartheg wedi pori ar 5.2ha o 10 Mai tan 15 Awst, gyda'r ardal wedi ei hymestyn i 7.2ha o 15 Awst tan 27 Medi.
- Yr ardal wedi ei rhannu yn bedwar padog gan symud bob pedwar i chwe diwrnod.
- Cyfartaledd pwysau ar ddechrau'r prosiect = 374kg.
- Ar sail cymryd 3% o bwysau corff y dydd fe fydden nhw wedi bwyta tua 1,800kg/DM o laswellt dros gyfnod y prosiect.
- Gyda chost cyfartalog 1kg/DM o laswellt sy'n cael ei bori ar 8c y kg mae hyn yn cyfateb i £144.
- Gyda chyfartaledd o enillion pwysau byw i bob anifail o 191kg gyda gwerth o £1.80kg roedd y gwerth a ychwanegwyd dros gyfnod y prosiect yn £343.80 gan adael elw o £199.80 y pen cyn tynnu'r holl gostau eraill cysylltiedig.

Ffigwr 2. Perfformiad gwartheg

| | Dyddiau | Cynnydd pwysau byw Ddyddiol (DLWG) | kg y gwnaeth pob anifail ei ennill | Cyfanswm a enillwyd | Hectarau oedd yn cael eu pori | Cynnydd Pwysau Byw/Ha |
|----------------------------|---------|------------------------------------|------------------------------------|---------------------|-------------------------------|-----------------------|
| 10 Mai - 10 Mehefin | 30 | 1.8 kg | 54 | 1,566 kg | 5.2 | 301 kg/ha |
| 10 Mehefin - 10 Gorffennaf | 30 | 1.4 kg | 42 | 1,218 kg | 5.2 | 234 kg/ha |
| 10 Gorffennaf - 15 Awst | 36 | 1.1 kg | 39 | 1,131 kg | 5.2 | 217 kg/ha |
| 15 Awst - 27 Medi | 42 | 1.35 kg | 56 | 1,624 kg | 7.2 | 225 kg/ha |
| Cyfansymiau / Cyfartaledd | 138 | 1.4 kg | 191 | 5,536 kg | 5.7 | 971 kg/ha |

Safbwyntiau Rob



1

Rhowch gynnig ar bethau newydd o hyd. Fe ddywedwyd wrthyf na allwn dyfu maglys rhuddlas ar Rhosferig, ond fe wnaed hynny yn llwyddiannus iawn.



2

Rydym yn defnyddio glaswelltir yn llawer mwy effeithlon trwy fesur glaswellt a phori mewn padogau.



3

Fe wnaeth defnyddio EID fel dull o reoli defaid brofi yn ddefnyddiol iawn.



4

Rwyf yn gredwr mawr mewn dysgu sy'n cael ei arwain gan ffermwyr. Mae cyfarfodydd grwpiau trafod Cyswllt Ffermio a dyddiau agored yn cynnig cyfle gwych i drafod beth sy'n gweithio'n dda ar lefel y fferm gyda chyd-ffermwyr.

Aberbran Fawr

Andrew a Kay Matthews

Aberbran, Aberhonddu, LD3 9NG

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos ers Rhagfyr 2011
- 50 erw yn berchen iddynt
- 480 erw ar rent
- Amrywio o 450 i 900 troedfedd

MANYLION Y GWARTHEG

- 50 o fuchod magu - croesiad cyntaf Limousin yn bennaf, ynghyd â nifer o heffrod ail groesiad a rhai Charolais.

MANYLION Y DEFAID

- 500 o famogiaid magu – cymysgedd o famogiaid Miwl a chroes Miwl

MANYLION ERAILL

- Menter casglu ffrwythau eich hun lwyddiannus
- 130 erw o wenith, barlys, ffa, ceirch a chnydau gwraidd
- Glastir Sylfaenol

AMCANION ALLWEDDOL

1. Gwneud y defnydd mwyaf o wrtaith anorganig ac organig i wella cynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol y fferm
2. Gwella'r rheolaeth ar y ddiadell
3. Treialu gwahanol ddulliau o ail hadu i weld pa un sydd fwyaf cost effeithiol
4. Lleihau'r defnydd o ddwysfwyd heb leihau'r cynhyrchiant
5. Ymestyn y tymor casglu eich hun

Prosiectau allweddol

1. GWELLA'R RHEOLAETH AR Y DDIADELL

Roedd bwrw llawes goch yn broblem wrth wyna yn 2012, gyda 6% o'r ddiadell yn dioddef. Awgrymwyd efallai bod y mamogiaid yn ennill gormod o bwysau ar gnydau gwraidd yng nghanol y beichiogrwydd ac roedd y gymysgedd cartref oedd yn cael ei roi yn ormodol, yn arbennig gyda'r silwair meillion coch llawn protein oedd yn cael ei borthi. Byddai porthi cymysgedd llawn starts mewn un pryd (ar dros 0.5 kg y dydd) yn amharu ar pH y rwmen gan effeithio ar dreuliad a'r hyn oedd yn llifo o'r rwmen – felly byddai dognau llai yn well. Ffurfiwyd y dognau ar sail

dadansoddiad o'r silwair a rhoddwyd argymhellion i leihau lefel y dwysfwyd ac i gynnig dau bryd y dydd, unwaith yn cynnig mwy na 0.5 kg y dydd. Yna gwelwyd lefelau achosion yn lleihau i ~2.5% yn 2013 a 2014, gyda'r mamogiaid yn cael sgôr cyflwr corff yn gyson i osgoi eu gweld yn mynd dros sgôr o 3.

Dangosodd y canlyniadau'r angen i fonitro cyflwr y mamogiaid a gwirio'r dognau i osgoi ennill gormod o bwysau o ganol y beichiogrwydd hyd at wyna.

2. PROSIECT BARLYS GWANWYN DIM TRIN

Chwistrellwyd cae 2ha gyda glyphosate ar y gyfradd chwalu lawn ac ar ôl i ddigon o amser fynd heibio i'r cynnyrch fod yn effeithiol, cafodd hanner yr ardal ei aredig a'i drin a heuwyd yr hadau gyda dril cyfunol. Driliwyd yn uniongyrchol i weddill y cae (dim trin).

Ffigur 1. Canlyniadau'r prosiect

| | Confensiynol/ hectar | Dim trin/ hectar |
|---|-------------------------|---------------------|
| Cynnyrch ffres grawn (t) | 4.5 | 2.6 |
| Cynnyrch cynnwys sych grawn (t) | 3.8 | 1.9 |
| Cynnyrch Gwellt (t) | 2.7 | 1.2 |
| Gwerth y Grawn Tach 2012 @£180t | 684 | 345 |
| Gwerth y gwellt @ £100/t* (tynnu costau'r byrnau @£2.50 yr un) | 248 | 110 |
| Cyfanswm Gwerth y Cnwdd (£/ha) | 932 | 455 |
| Cyfanswm Costau Cynhyrchu (£/ha) | 502 | 514 |
| Elw Bras (£/ha) | 430 | - 60 |

Roedd 2012 yn flwyddyn eithriadol o wlyb a effeithiodd ar y cynnyrch, ac fe wnaeth difrod gan wllithod amharu'n llawer gwaeth ar y darn dim triniaeth. Byddai costau'r ardal heb ei thrin - £51/ha yn llai hefyd heb y costau sychu a ddigwyddodd yn syml oherwydd na reolwyd y gwllithod.




3. PROSIECT MEFUS AR BEN BWRDD

Sefydlwyd system pen bwrdd yn ddiweddar mewn twnnel polythen ac mae'r buddsoddiad £5,600 hwn wedi ychwanegu nifer o fanteision at y busnes. Trwy dyfu'r planhigion ar ben byrddau llwyddwyd i gael gwared ar y bygythiad o afiechydon sy'n cael eu cludo yn y pridd oedd yn dechrau mynd yn broblem. Yn y cysgod sydd mewn twnnel polythen mae potensial hefyd i gynhyrchu hyd at 15% yn fwy o ffrwythau a gellir tyfu mefus dros gyfnod hwy gan ymestyn y tymor a gwneud y fenter yn fwy hyfyw. Mae'r manteision ychwanegol i'r cwsmer yn cynnwys ei gwneud hi'n haws casglu ar ben y bwrdd a chysgod rhag y gwynt a'r glaw.

Mae Aberbran ar y llwybr cywir i gynhyrchu 1,000kg o fefus o'r twnnel polythen eleni, a gan fod twnnel polythen ychwanegol yn dod yn weithredol y flwyddyn nesaf, maent yn anelu at gynhyrchu 4,000kg.


Cynhyrchiant mefus 2014




1,000 kg



Cynhyrchiant mefus a ragwelir 2015



4,000 kg



Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

1. Cynnal neu ostwng y nifer o ddefaid sy'n bwrw llawes goch sydd ar hyn o bryd yn 2.5%
2. Anelu at sgôr cyflwr corff (BCS) o 3 ar gyfer canol y beichiogrwydd

Holi ac ateb gydag Andrew

Beth yw'r brif fantais o fod yn fferm arddangos?

"Rwyf wedi gwneud defnydd llawn o'r holl gynghorwyr a mentoriaid yr wyf wedi gweithio hefo nhw a dysgu gan y cyfan. Rwyf wedid darganfod, er enghraifft, wrth ddewis hadau, nad y rhataf yw'r gorau bob amser. Hefyd, trwy gydnabod pwysigrwydd sgôr cyflwr, ffurfio dogn a phorthi mamogiaid yn hwyr yn eu beichiogrwydd, rwyf wedi lleihau'r perygl o fwrw llawes goch."

Beth sydd wedi creu'r arbedion ariannol mwyaf i chi neu gynyddu eich proffidioldeb?

"Yn ôl fy nghyfrifiadau rwyf wedi arbed dros £1,500 y flwyddyn ar wrtaith diolch i gael cynllun rheoli maetholion."

Safbwyntiau Andrew



1

Gweithredu cynllun rheoli maetholion. Mae'n ddogfen werthfawr iawn sydd, os caiff ei defnyddio yn y modd cywir yn ffurfio sylfaen ar gyfer cynllun rheoli glaswelltir.



2

Peidiwch esgeuluso rhoi sgôr cyflwr, ffurfio dogn a phorthi mamogiaid yn hwyr yn eu beichiogrwydd i leihau'r risg o fwrw llawes goch.



3

Mae aredig a drilio yd y gwanwyn wedi cynhyrchu'r canlyniadau mwyaf cyson ac mae defnyddio pelenni gwllithod yn y system trin lleiaf yn angenrheidiol.

Guddr

Richard a Jane Powell a'r teulu

Llanbedr, Crucywel, Powys, NP8 1TA

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos ers Chwefror 2012
- 400 erw
- Amrywio o 600 i 1,200 troedfedd

MANYLION Y GWARTHEG

- 77 o wartheg, buchod magu croes Limousin a chroes Blue.

MANYLION Y DEFAID

- 1,000 o famogiaid Mynydd Cymreig Talybont yn pori ar Fynyddoedd Brycheiniog

MANYLION ERAILL

- 20 erw o fetys porthiant
- 18 erw o india corn
- 18 erw o wenith

AMCANION ALLWEDDOL

1. Gwneud defnydd gwell o borthiant wedi ei dyfu gartref
2. Asesu potensial india corn dan blastig
3. Cynllunio rhaglen ategu at yr elfennau hybrin
4. Defnyddio profi maetholion yn y pridd i wneud y defnydd gorau o dail a gwrtaith i leihau costau

Prosiectau allweddol

1. ELFENNAU HYBRIN

Yn dilyn amheuaeth bod diffyg seleniwm yn y lloeau yn ystod y gaeaf, dadansoddwyd sampl o'r glaswellt am fwynau ac elfennau hybrin a gwelwyd bod y lefelau seleniwm yn isel iawn. Cadarnhaodd samplau gwaed lefelau is na'r lefel angenrheidiol yn y buchod a'r lloeau, a chadarnhawyd bod diffyg seleniwm/Fitamin E. Mae seleniwm yn gweithredu gyda fitamin E i ddiogelu meinwe rhag ei ocsideiddio ac i bilenni celloedd chwalu a gwelir y diffyg fel

afiechyd cyhyrau gwyn (sy'n achosi marwolaeth ddisymwth) mewn anifeiliaid sy'n tyfu, diffyg bywiogrwydd mewn lloeau newydd-anedig, diffyg cyflwr, peidio â bwrw brych a diffyg ffrwythlondeb.

Rhoddwyd brechiad seleniwm i'r gwartheg ac yn dilyn hynny cadwyd golwg ar lefelau'r seleniwm yn y gwaed dan oruchwyliaeth milfeddyg.

2. INDIA CORN DAN BLASTIG

Mae tyfu india corn dan blastig yn hybu'r planhigion i aeddfedu yn gynt a mwy o gynnyrch starts. Yn 2013, rhoddodd treial

yn cymharu saith math gwahanol dan blastig (gydag Accumen yn cael ei dyfu yn y modd confensiynol) y canlyniadau canlynol:

Ffigwr 1. Perfformiad yr india corn

| | Pwysau ffres tunnelli yr erw | Starts kg/erw | Tunnelli cynnwys sych yr erw |
|----------------------|------------------------------|---------------|------------------------------|
| Justina | 18.2 | 1.9 | 5.2 |
| Award | 17.2 | 3.3 | 5.8 |
| Accumen | 14.1 | 1.6 | 4.2 |
| Asgard | 15.4 | 2.5 | 6.2 |
| Ambition | 9.2 | 1.9 | 3.7 |
| DM002 | 9.7 | 3.8 | 1.7 |
| Justina 2 | 24 | 2.5 | 6.9 |
| Accumen Confensiynol | 18.6 | 1.9 | 5.3 |

Roedd yn flwyddyn dda i dyfu india corn ac fe wnaeth yr india corn a dyfwyd yn y modd confensiynol yn y cae gerllaw dyfu yn dda a chynhyrchu yn dda. Roedd costau ychwanegol ymlaen llaw gyda'r deunydd

plastig a gyfrifwyd ar £135 yr erw ar y fferm hon, ond fe dalwyd am y costau yma trwy'r cynnyrch ychwanegol o india corn ac o bosibl y gallu i sefydlu cnwd dilynol.

Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

PERFFORMIAD TEIRW EIDION

Mae'r dogn yn bennaf wedi ei seilio ar borthiant wedi ei dyfu gartref (silwair glaswellt ac india corn, gwenith wedi ei grimpio, grawn bragu a had r p) i hybu cyfradd dyfu o 1.55kg y dydd i'r teirw Charolais croes 350kg:

Ffigwr 2. Data dognau

| | |
|---------------------|------|
| ME (MJ/kg DM) | 11.7 |
| Protein (%DM) | 15.6 |
| Cost   y pen y dydd | 1.54 |

Ffigwr 3. Cyfartaledd data lladd i gr p o 9 tarw Awst 2014:

| | |
|------------------|------|
| Oedran (misoedd) | 15.8 |
| Pwysau (kg) | 363 |
| Gradd | -U2 |
| Pris (  y kg) | 3.37 |

Ar 0.76 kg o enillion mewn carcass y dydd gyda gwerth o  2.56, mae'r teirw wedi creu elw dros y porthiant o  1.02 y pen y dydd.

Holi ac ateb gyda Richard

Beth oedd y brif fantais o fod yn Fferm Arddangos Cyswllt Ffermio?

“Edrych ar yr adolygiad busnes i ddynodi problemau posibl yn y busnes ac archwilio dewisiadau gwahanol o ran arferion ffermio y gellid eu treialu.”

O'r holl gyngor, beth sydd wedi bod fwyaf manteisiol a/neu sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar eich busnes?

“Cynllunio iechyd anifeiliaid a gweithio'n glos gyda'r milfeddyg i wella iechyd cyffredinol y stoc, trwy brofi ffrwythlondeb y tarw a phrofi gwaed am ddiffygion o ran elfennau hybrin.”

Beth yw eich cynlluniau at y dyfodol?

“Parhau i geisio gwella'r fferm gan edrych ar y potensial i arallgyfeirio i sector busnes arall i helpu i ychwanegu at y busnes fferm. Hefyd ystyried cynlluniau amgylcheddol ac ynni adnewyddadwy.”

Pa newidiadau ydych chi wedi eu gweithredu fydd yn parhau i fod yn rhan o'ch system ffermio yn y dyfodol?

“Rhoi seleniwm i'r lloeau; parhau i gynhyrchu teirw eidion gan ei fod yn rhoi cyfle i gael trosiant cyflym o ran anifeiliaid petaem ni yn methu gwerthu anifeiliaid st r oherwydd cyfyngiadau TB; a chynnal cynllun iechyd anifeiliaid a dal i'w adolygu trwy weithio'n glos gyda fy milfeddyg.”

Safbwytiau Richard

1

Manteisiwch ar unrhyw wybodaeth a roddir gan arbenigwyr, mae eu cyfoeth o wybodaeth yn allweddol a gall eu cyngor gynyddu potensial fferm.




2

Gwella iechyd anifeiliaid trwy weithio'n glos gyda'r milfeddyg lleol i ddynodi unrhyw problemau posibl yn y stoc a chael gwared arny'n nhw cyn iddyn nhw ddod yn broblem.



3

Peidiwch   gwario yn ddiangen – gydag elfennau hybrin dynodwch beth sydd ei angen trwy brofi gwaed a thargedu hynny.



4

Mae cynllunio rheoli maetholion yn allweddol i dyfu cnydau cynhyrchiol. ‘Sicrhau bod y pethau sylfaenol yn iawn’ i sicrhau bod lefelau maetholion y pridd yn iawn cyn plannu cnwd o werth uchel. Mae hyn yn hanfodol bwysig a dylai fod yn fan cychwyn i unrhyw ffermwr sy'n ystyried tyfu cnydau tir  r.



Gelli

Richard a Susan Howells a'r teulu

Cymmer, Port Talbot, SA13 3NN

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos ers Mawrth 2012
- 1,850 erw
- Amrywio o 900 i 1,800 troedfedd

MANYLION Y GWARTHEG

- 25 o fuchod magu croes Limousin a chroes Glas yn lloea yn y gwanwyn
- 25 o fuchod Limousin pedigri yn cynhyrchu tua 10 tarw magu i'w gwerthu yn flynyddol

MANYLION Y DEFAID

- 2,250 o famogiaid, y cyfan yn rhai Mynydd Cymreig Morgannwg
- 300 o famogiaid Cymreig croes Texel

MANYLION ERAILL

- 20 erw o rêp/maip
- Glastir Sylfaenol

AMCANION ALLWEDDOL

1. Gweithio i gywiro pH, lefelau ffosffad a photash y pridd i gynhyrchu mwy o borthiant cartref
2. Defnyddio cyngor milfeddygol i ffurfio polisi trin llyngyr a llyngyr yr iau
3. Ychwanegu gwerth at y fuches bedigri trwy gofnodi perfformiad
4. Llunio rhaglen ategu at yr elfennau hybrin

Prosiectau allweddol

1. PERFFORMIAD YR WŶYN

O ganlyniad i berfformiad siomedig yr ŵyn mewn tymor blaenorol a gwaith samplu gwaed yn y gorffennol oedd yn dynodi lefelau cobalt isel (B12) yn yr ŵyn, cychwynwyd prosiect i bennu effeithlonrwydd dau ddull o ategu cobalt.

Marcwyd tri grŵp o ŵyn a'u dyrannu i grwpiau triniaeth ar hap:

1. Bolws cobalt, ar gael yn fasnachol
2. Dos sylffad cobalt wedi ei baratoi gartref i'w ailadrodd yn fisol
3. Grŵp rheoli

Pwyswyd yr ŵyn, a chymerwyd cyfrif wyau ysgarthol a samplau gwaed cobalt (B12) yn fisol.

Ffigur 1. Effaith y bolws a'r dos cobalt ar berfformiad yr ŵyn

| | Grŵp Rheoli | Bolws cobalt | Dos cobalt |
|---------------------------------------|-------------|--------------|------------|
| Pwysau'r ŵyn (kg) | 31.3 | 34.1 | 33.8 |
| Cynnydd ym mhwsau'r ŵyn (gram y dydd) | 26 | 174 | 158 |
| Cobalt yn y gwaed (pmol/l) | 103 | 122 | 116 |
| Cyfrif Wyau Ysgarthol (wy i bob gram) | 30 | 30 | 30 |

Fe wnaeth ŵyn oedd wedi cael eu trin â chobalt yn sylweddol well, ond roedd lefelau cobalt yn y gwaed yn dal dan y lefel cyfeirio o 188pmol/l yn y tri grŵp.

Prosiectau allweddol

2. GWERTHOEDD BRIDIO TYBIEDIG (EBV)

Mae'r teulu Howells yn cydnabod bod prynwyr teirw yn gynyddol yn gofyn am EBV am berfformiad a rhwyddineb lloea. Maent yn awr yn pwysu eu lloeau pedigri bob 100 diwrnod ac mae'r data yn cael ei gofnodi ar BASCO, y system gofnodi perfformiad ar y we. Mae sganio dyfnder cyhyrau a braster y

lwynau hefyd yn cael ei wneud gan dechnegwr ar gyfer yr holl anifeiliaid rhwng 350 a 500 diwrnod oed. Mae'r gwerthusiad brîd Limousin swyddogol diweddaraf wedi creu'r ffigyrau EBV canlynol i'r tarw Igor o'i gymharu â thri tharw arall yn yr un grŵp cyfoed ar y fferm:

Ffigwr 2. Cymhariaeth EBV

| | Pwysau 400 diwrnod gwirioneddol wedi ei addasu (kg) | Twf 400 diwrnod (EBV) | Dyfnder y cyhyr (EBV) | Dyfnder y braster (EBV) | Gwerth biff (LIM) | Cywirdeb gwerth biff (%) |
|--------|---|-----------------------|-----------------------|-------------------------|-------------------|--------------------------|
| IGOR | 647 | 58 | 3.7 | 0.1 | 29 | 71 |
| 3 TARW | 592 | 37 | 3.1 | 0.13 | 23 | 63 |

Mae pwysu a sganio'r teirw i gyd felly wedi dynodi bod gan y tarw Igor well geneteg tyfu a chyhyrau mewn cymhariaeth â'i gyfoedion ac mae wedi cyfrannu at greu ffigwr

cywirdeb mwy dibynadwy i'r mynegai cyffredinol o Werthoedd Biff sy'n cynyddu hyder yn y ffigyrau i brynwyr teirw.

Ffigwr 3. EBV Igor

| Is na'r cyfartaledd | Uwch na'r Cyfartaledd (gwell) | Dyddiad y dadansoddiad 22/07/14 | EBV | % Cywirdeb |
|---------------------|-------------------------------|---------------------------------|------|------------|
| | | Hyd Beichiogrwydd (dyddiau) | -2.6 | 72 |
| | | Pwysau wrth eni (kg) | 1.7 | 70 |
| | | Rhwyddineb lloea (%) | -2.1 | 60 |
| | | Rhwyddineb lloea'r fam (%) | 0.8 | 50 |
| | | 200 Diwrnod Llaeth (kg) | -1 | 43 |
| | | Twf 200 diwrnod (kg) | 31 | 72 |
| | | Twf 400 diwrnod (kg) | 58 | 70 |
| | | Dyfnder Cyhyrau (mm) | 3.7 | 59 |
| | | Dyfnder Braster (mm) | 0.1 | 47 |
| | | Cylchedd ceilgydol (cm) | 0.6 | 59 |
| | | Addfwynder (%) | 3.0 | 48 |
| | | Gwerth Biff (LIM) | 29 | 71 |
| | | Gwerth lloea (LIM) | 3 | 71 |
| | | Gwerth Mamol (LIM) | 19 | 51 |

3. MYOSTATIN (CYHYRAU DWBL)

Mae genynnau myostatin yn hybu mwy o gynnrych cig a gwell ansawdd a gwell effeithlonrwydd o ran porthiant. Profwyd yr

heffrod cyfnewid Limousin pedigri ar Gelli am yr amrywiadau sydd ganddynt i helpu i wneud penderfyniadau bridio ar sail gybodaeth.

Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

1. Wŷn a fagwyd i bob mamog (diadelloedd mynydd)
 - Traean uchaf 1.34
 - Gelli 1.24
 - Cyfartaledd 1.13
2. Costau dwysfwyd i bob mamog ar £18 o'i gymharu â £13 sef y cyfartaledd ar gyfer diadelloedd mynydd.
3. Elw'r fuches fagu i'r fuches groesfrid 103% yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer buchod magu ucheldir.
4. Elw'r fuches bedigri 165% yn uwch na'r cyfartaledd i fuchod magu ucheldir.

Safbwyntiau Richard



1 Mae creu cynllun rheoli maetholion ar gyfer y fferm gyfan wedi dangos lle sydd angen i ni ganolbwyntio ein adnoddau.

2 Mae defnyddio ffensys trydan yn hanfodol i sicrhau bod yr wŷn yn bwyta'r cnwd cyfan o gnydau bresych a hefyd lleihau'r tir tu ôl iddo.

3 Mae cyfrif wyau ysgarthol wedi ein galluogi i gynllunio ein strategaeth trin llyngyr.



4 Mewn ymateb i ofynion prynu teirw, rydym yn cofnodi pwysau lloea i greu ffigyrau EBV mwy cywir.

Holi ac ateb gyda Richard

Beth yw'r brif fantais o fod yn Fferm Arddangos Cyswllt Ffermio?

"Tynnu sylw at y cynllun rheoli maetholion ac ail-werthuso'r rheolaeth ar laswelltir. Rydym wedi defnyddio'r canlyniadau i brynu calch mewn llwythi mawr a chywiro'r ffigyrau P a K."

O'r holl gyngor, beth sydd wedi bod fwyaf manteisiol a/neu sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar eich busnes?

"Roeddem yn tybio bod y fferm yn brin o sylffwr ac fe wnaethom gynnal y prosiect sylffwr gyda Cyswllt Ffermio; fe ddangosodd nad oes angen i ni ddefnyddio sylffwr yn y gwrtaithe ac felly mae wedi arbed rhywfaint o gostau i ni."

Pa newidiadau ydych chi wedi eu gweithredu y byddwch yn eu cadw?

"Yn sicr llai o driniaethau llyngyr rheolaidd, gan ein bod yn cyfrif wyau ysgarthol yn gyson, ond dosio yn amlach ar gyfer llyngyr yr iau. Dangosodd profion hefyd nad oedd unrhyw wrthedd i'r dos ar y fferm."

Great House

Peter a Sue Williams

Llan-soe, Brynbuga, Sir Fynwy, NP15 IDE

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos ers Mehefin 2012
- 170 erw yn berchen iddynt
- 100 erw ar rent
- Amrywio o 131 i 322 troedfedd

MANYLION Y GWARTHEG

- 30 o fuchod magu (croesfridiau amrywiol)
- Prynir lloeau biff croes llaeth i mewn i'w magu fel stoc cyfnewid

MANYLION Y DEFAID

- 400 mamog yn cynnwys croesfridiau yn bennaf (gyda diadelloedd bach Balwen, Thorddu a Thorwen)

MANYLION ERAILL

- 10 erw o gnwd cyfan
- Glastir Sylfaenol

AMCANION ALLWEDDOL

1. Gwella cynhyrchedd y ddiadell a pherfformiad yr ŵyn
2. Cynnig a diogelu cyfleoedd i'r plant weithio gartref ar y fferm
3. Gwella systemau i wahanu dŵr glân a budr ar y fferm
4. Gwella priddoedd a gwndwn glaswellt i fedru cadw cymaint o stoc ag sy'n bosibl


Prosiectau allweddol

1. ELFENNAU HYBRIN


Dangosodd dadansoddiad porthiant cychwynol am fwynau ac elfennau hybrin yn Great House bod problemau posibl o ran copr, sinc a seleniwm, a lefelau uchel iawn o haearn ac alwminiwm a allai gloi copr ac atal i'r anifeiliaid ei ddefnyddio. Dangosodd y monitro parhaus ar waed y gwartheg a'r defaid bod lefelau seleniwm a chopr yn is na'r lefelau angenrheidiol gyda chobalt yn ddigonol o ychydig.

Yn dilyn cael cyngor milfeddygol, mae'r buchod a'r lloeau yn awr yn cael eu trin ddwywaith y flwyddyn gyda bolws yn cynnwys copr, seleniwm, cobalt, iodid, manganis a sinc, a rhoddir bolysau seleniwm a chobalt i'r mamogaid 2 fis cyn ŵyna.


Ffigwr 1. Lefelau seleniwm yn y gwaed mewn lloeau (Ionawr 2013)



Ffigwr 2. Lefelau cobalt yn y gwaed mewn lloeau (Ionawr 2013)



Ffigwr 3. Lefelau copr yn y gwaed mewn lloeau (Ionawr 2013)



Prosiectau allweddol

2. CHWILOD Y DOM

Dywedir bod chwilod y dom yn cynnig manteision sylweddol gan eu bod yn:

- claddu a malu tail anifeiliaid
- lleihau'r baeddu ar borfa
- cynyddu'r maetholion yn y pridd
- cynnig tyfiant bwytadwy mewn glaswellt
- hybu awyru'r pridd
- lleihau'r baich o barasitiaid da byw ar borfa

Canfu ymchwiliadau cychwynnol y prosiect bod niferoedd chwilod y dom ar Great House yn eithaf isel, ychydig o rywogaethau gwahanol oedd yno ac roedd cyfraddau dadelfennu'r tail yn araf.

Fe wnaeth y dadelfennu gynyddu ar ôl gollwng chwilod y dom ychwanegol a bydd y fantais hon yn cynyddu yn flynyddol wrth i'r chwilod fagu ac i'r boblogaeth gynyddu ar y fferm. Mae'r defnydd o dds llyngyr wedi ei addasu yn awr i sicrhau bod y drefn yn llai gwenwynig i chwilod y dom.

3. LLEIHU'R SLYRI SY'N CAEL EI GYNHYRCHU

Dangosodd cyfrifiadau ar y drefn oedd yn bodoli ar Great House bod y 100 o wartheg biff yn gofyn am ofod storio o dros 900m³ (bron i 200,000 galwyn) ar gyfer y slyri, ac roedd 90% ohono yn cynnwys dŵr glaw. Gallai darparu hyn o le amrywio rhwng £20,000 am lagŵn gydag ochrau pridd i hyd at £63,000 am storfa goncrid.

Gyda chyfanswm o fuddsoddiad o £1,200 mae Peter wedi gostwng y cyfaint o ddŵr budr a slyri a gynhyrchir ar Great House trwy:

- Osod gwteri a phibellau newydd
- Symud y gwartheg o'r iardiau agored
- Symud rheiliau porthi i ben agored y siediau
- Gosod ymylon concrid i atal elifiant rhag llifo i iardiau glân

Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

PERFFORMIAD Y DDIADDELL

Yn dilyn rhoi cobalt a bolysau seleniwm nodwyd yr effeithiau canlynol:

- Wŷn cryfach ar eu genedigaeth
- Cyfraddau tyfu gwell gan yr wŷn
- Llai o wŷn yn perfformio'n wael

| | |
|--|--------------------|
| Wŷn yn barod i'w gwerthu Mehefin-Gorffennaf 2014 | +98% |
| Pwysau carcass oen | +0.2kg |
| Gwerth yr wŷn a werthwyd gyntaf | +£14 |
| Amseriad y tyniad cyntaf | 30 diwrnod yn gynt |

Holi ac ateb gyda Peter

Beth yw'r brif fantais o fod yn Fferm Arddangos Cyswllt Ffermio?

"Yn bendant y fantais fwyaf oedd cyfarfod y cyngorwyr fferm, cael eu cyngor arbenigol a gweithio gyda nhw i weithredu newidiadau positif ar ein fferm. Bydd effaith eu gwaith yn ein helpu i benderfynu ar gyfeiriad y busnes fferm dros y blynyddoedd nesaf."

Beth ydych chi wedi rhoi cynnig arno na fydech chi fel arall?

"Fyddwn i byth wedi cymryd rhan mewn rhywbeth fel y prosiect chwilod y dom, oni bai fy mod yn fferm arddangos. Ond roedd y canlyniad yn hynod ddifur ac mae wedi newid y ffordd yr ydym yn dewis dos llyngyr ar y fferm yn sylfaenol."

Pa newidiadau ydych chi wedi eu gweithredu fydd yn parhau i fod yn rhan o'ch system ffermio yn y dyfodol?

"Roedd y newidiadau i seilwaith y fferm yn syml a chost effeithiol. Mae'r system newydd yn haws i'w rheoli ac angen llai o waith ac felly mae'n arbed arian yn sylweddol. Mae defnyddio'r dŵr glaw oddi ar doeau'r adeiladau hefyd wedi gostwng costau dŵr y fferm yn sylweddol."

Safbwyntiau Peter



1 Gwrando a siarad â chynghorwyr pryd bynnag y ceuoch chi gyfle – mae rhywbeth newydd i'w ddsygu o hyd.

2 Byddwch yn agored eich meddwl am y cyfleoedd busnes posibl sydd gan eich fferm i'w cynnig.



3 Mae'n hanfodol asesu a monitro statws eich diadell/buches o ran elfennau hybrin i gynnal iechyd y stoc a chael y cyfraddau tyfu gorau.

4 Nid oes raid buddsoddi arian mawr bob amser i gael newid positif a chyflawni'r canlyniadau angenrheidiol.

Ifton Hill

Paul a Melanie Rymer

Porth Sgiwed, Cas-gwent, NP26 5TU

MANYLION Y FFERM

- Fferm arddangos ers Mawrth 2012
- Tenantiaid ar 150 erw ar aber Afon Hafren
- 600 erw ar rent, glaswellt yn bennaf
- Amrywio o 16 i 40 troedfedd

MANYLION Y GWARTHEG

- 150 o fuchod Holstein
- 150 o heffrod llaeth yn lloea yn 2 flwydd oed

MANYLION ERAILL

- 40 erw o wenith gaeaf
- 40 erw o farlys y gwanwyn
- 40 erw o olew hadau rêp i'w werthu
- 60 erw o india corn i'r buchod llaeth

AMCANION ALLWEDDOL

1. Gwella proffidoldeb trwy ddefnyddio cynydu porthi yn fwy effeithlon
2. Gwella'r rheolaeth ar fuchod sych i gael y potensial llaetha gorau
3. Canolbwyntio ar reoli afiechydon a'u hatal i wella cynhyrchedd
4. Cynyddu niferoedd buchod llaeth i gael y mwyaf o'r contract llaeth
5. Anelu at ddod yn fwy cynaliadwy trwy beidio a bod mor ddibynnol ar y Taliad Sengl

Prosiectau allweddol

1. RHEOLI A GWAREDU BVD

Ar ôl sgrinio gwaed cychwynnol mewn stoc ifanc gwelwyd eu bod wedi dod i gysylltiad â'r firws BVD, chwiliwyd am yr anifeiliaid sydd wedi eu heintio yn barhaus trwy brofi'r tanc bylc am y firws. Ar yr un diwrnod ag y cynhaliwyd profion TB, rhoddwyd profion meinwe clust i'r holl anifeiliaid nad oedden nhw'n cyflenwi llaeth i'r tanc bylc; gwartheg sych, buchod yn cael eu trin a stoc ifanc. Ar ôl lladd unrhyw anifeiliaid oedd wedi eu heintio yn barhaus, gweithredwyd 'tagio a phrofi' ar yr holl loeau a aned am 12 mis yn y fuches a nawr nid oes BVD yn y fuches.

2. LLEIHAU MASTITIS A CHYFRIFON CELLOEDD CORFFOROL

Arweiniodd dadansoddiad manwl o gofnodion mastitis at ddiagnosis i'r fuches mai mastitis 'amgylcheddol' oedd yn bennaf yn digwydd yn y 'cyfnod sych' a llaetha. Mae newidiadau yn yr amgylchedd cyfnod sych a lloea am y tro cyntaf yn ystod misoedd y gaeaf yn awr yn cael eu monitro o ran cyfraddau heintio o'r newydd a'r cyfraddau achosion mastitis clinigol newydd.

3. GWELLA EFFEITHLONRWYDD PORTHANT

Mae ansawdd y glaswellt a'r india corn yn rhagorol yn Ifton Hill ac er bod y gyfradd dwysfwyd yn dda ar 0.31 kg/litr mae lle i gynyddu'r llaeth o borthiant i gyrraedd y targed o 3,000 litr. Byddai gostyngiad bach yn y gyfradd borthi o 0.02kg/litr yn cyflawni arbediad o tua £3,500 yn flynyddol. Bydd sicrhau y cydbwysedd gorau o ffynonellau egni a phrotein yn y dognau tra'n herio'r buchod i ddefnyddio porthiant yn well yn allweddol i leihau costau gan gynnal y cynnyrch llaeth.

Dangosyddion perfformiad allweddol ac ystadegau

Ffigur 1. Data buches Ifton Hill

| | Hydref 2012 | Gwanwyn 2014 | Cost/mantais i bob achos/buwch |
|------------------------------------|-------------|--------------|--------------------------------|
| Dwysfwyd (kg/litr) | 0.36 | 0.31 | £108 y fuwch |
| Mastitis (achosion/100 o fuchod) | 39 | 44 | £325 yr achos |
| Oedran heffrod wrth loea (misoedd) | 26 | 24 | £70 y pen |

Holi ac ateb gyda Paul

A oes unrhyw beth yr ydych wedi rhoi cynnig arno na fydddech yn ei wneud eto neu unrhyw wersi a ddysgwyd?

“Ar ôl treialu cadw stoc ifanc allan yn y gaeaf, ni fyddwn yn gwneud hyn eto oherwydd y problemau wrth ymdopi â thywydd gwael.”

O'r holl gyngor, beth sydd wedi bod fwyaf manteisiol a/neu sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar eich busnes?

“Mae monitro achosion mastitis yn fanwl yn tynnu sylw at y buchod sy'n dioddef yn gyson ac yn dangos y cyfnod yn y llaethiad pan fydd yr achosion yn fwyaf tebygol o ddigwydd.”

Beth yw eich cynlluniau at y dyfodol?

“Ein cynllun yw cynyddu niferoedd y fuches laeth.”

Beth ydych chi wedi rhoi cynnig arno na fydddech chi fel arall?

“Llunio darlun cyflawn o statws BVD yr holl wartheg mewn un diwrnod yn ystod y profion TB trwy gymryd sampl o'r tanc bylch a samplu meinwe clustiau buchod sych, buchod oedd yn cael eu trin a'r holl stoc ifanc.”

Pa newidiadau ydych chi wedi eu gweithredu y byddwch yn eu cadw?

“Defnyddio a dadansoddi data a gesglir ar y fferm yn fwy effeithlon i gael effaith ar ein costau a'n hallbwn sydd yn y pen draw yn gwella proffidoldeb.”

Pa gamau syml ydych chi wedi eu gweithredu sydd wedi creu mantais fawr?

“Ar ôl derbyn cyngor gan ymgynghorydd adeiladu, gosodwyd cysgod gwynt wrth ochr sied oedd yn peri problem o ran niwmonia mewn stoc ifanc. Mae triniaethau gwrthfotig wedi eu dileu i bob pwrpas yn awr ac mae cyfraddau tyfu wedi gwella.”



Safbwyntiau Paul

1

Rhoi mwy o sylw i ansawdd silwair a phrofi glaswellt cyn ei dorri am lefelau siwgr a nitradau



2

Gweithiwch yn agosach gyda'ch milfeddygon i fonitro/rheoli afiechydon. Mae'n bwysig parhau rhaglenni rheoli afiechydon yn y tymor hir e.e. monitro mastitis, rheoli BVD.



3

Cynnal gwaith samplo pridd yn gyson i gywiro diffyg cydbwysedd ac i sicrhau'r ymateb mwyaf posibl gan wrtaith nitrogen



Cyswllt Ffermio

cyfarwyddyd...cyngor...
hyfforddiant...digwyddiadau

- Meincnodi perfformiad
- Rhannu arfer gorau
- Cynyddu effeithlonrwydd

Mae unrhyw gyfeiriad yn y llyfryn hwn at gynnyrch masnachol yn ymwneud â'r prosiect neu'r treial a ddisgrifir yn unig. Does dim ffafriaeth i unrhyw gynnyrch penodol. Roedd y wybodaeth yn gywir ar yr adeg yr anfonwyd i'w argraffu.



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Am ragor o wybodaeth am
wasanaethau a digwyddiadau
Cyswllt Ffermio, cysylltwch â ni:

RHIF FFÔN
01970 636565

E-BOST
farmingconnect@menterabusnes.co.uk

GWEFAN
www.menterabusnes.co.uk
/cyswlltffermio

Darllenwch y newyddion diweddaraf
gan Cyswllt Ffermio trwy ymuno â'n
cymuned ar-lein. Dilynwch ni ar:

FACEBOOK
facebook.com/farmingconnect

TWITTER
@farmingconnect

Darperir cefnogaeth, arweiniad a hyfforddiant
Cyswllt Ffermio gan Menter a Busnes ar ran
Llywodraeth Cymru.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer
Datblygu Gwledig Ewrop yn Buddsoddi
mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural
Fund for Rural Development
Europe Investing in Rural Areas

 **menter**
a busnes



Llywodraeth Cymru
Welsh Government